

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom	Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 19 Hydref 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 10.00	0300 200 6565
	SeneddDCC@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.tv

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.30–10.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10.00

2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10.00–10.10

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

2.1 SL(5)630 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

(Tudalennau 1 – 16)

CLA(5)–30–20 – Papur 1 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)–30–20 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

2.2 SL(5)632 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020

(Tudalennau 17 – 29)

CLA(5)–30–20 – Papur 4 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 5 – Rheoliadau



CLA(5)–30–20 – Papur 6 – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)–27–20 – Papur 7 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd,
9 Hydref 2020**

CLA(5)–25–20 – Papur 8 – Datganiad ysgrifenedig, 8 Hydref 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**2.3 SL(5)631 – Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad)
(Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 30 – 44)

CLA(5)–30–20 – Papur 9 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 10 – Gorchymyn

CLA(5)–30–20 – Papur 11 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**2.4 SL(5)633 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 45 – 60)

CLA(5)–30–20 – Papur 12 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 13 – Rheoliadau

CLA(5)–30–20 – Papur 14 – Memorandwm Esboniadol

CLA(4)–30–20 – Papur 15 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 9 Hydref 2020

**2.5 SL(5)634 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020**

(Tudalennau 61 – 78)

CLA(5)–30–20 – Papur 16 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 17 – Rheoliadau

CLA(5)–30–20 – Papur 18 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–30–20 – Papur 19 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 9 Hydref 2020

CLA(5)–30–20 – Papur 20 – Datganiad ysgrifenedig, 9 Hydref 2020

3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10.10–10.15

3.1 SL(5)625 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

(Tudalennau 79 – 84)

CLA(5)–30–20 – Papur 21 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 22 – Ymateb Llywodraeth Cymru

3.2 SL(5)627 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

(Tudalennau 85 – 89)

CLA(5)–30–20 – Papur 23 – Adroddiad

CLA(5)–30–20 – Papur 24 – Ymateb Llywodraeth Cymru

4 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

10.15–10.20

4.1 SICM(5)30 – Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 90 – 120)

CLA(5)–30–20 – Papur 25 – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)–30–20 – Papur 26 – Rheoliadau

CLA(5)–30–20 – Papur 27 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–30–20 – Papur 28 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Hydref 2020

CLA(5)–30–20 – Papur 29 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–30–20 – Papur 30 – Sylwebaeth

5 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin

10.20–10.25

(Tudalennau 121 – 191)

CLA(5)-30-20 – Papur 31 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-30-20 – Papur 32 – Adroddiad

CLA(5)-30-20 – Papur 33 – Dadansoddiad o Fframweithiau 2020

6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10.25-10.30

6.1 WS-30C(5)170 – Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygiadau etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 192 – 198)

CLA(5)-30-20 – Papur 34 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-30-20 – Papur 35 – Sylwebaeth

6.2 WS-30C(5)171 – Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Cyrff Cynhyrchwyr a Gwin) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 199 – 205)

CLA(5)-30-20 – Papur 36 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-30-20 – Papur 37 – Sylwebaeth

6.3 WS-30C(5)172 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 206 – 209)

CLA(5)-30-20 – Papur 38 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-30-20 – Papur 39 – Sylwebaeth

7 Papur(au) i'w nodi

10.30-10.35

7.1 Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bil Marchnad Fewnol y DU

(Tudalennau 210 – 211)

CLA(5)-30-20 – Papur 40 – Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros
Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 12
Hydref 2020

- 7.2 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Torri'r rheol 21 diwrnod, a materion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth cysylltiedig â COVID-19**
(Tudalennau 212 – 213)
CLA(5)-30-20 – Papur 41 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 12 Hydref 2020
- 7.3 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cam-Drin Domestig**
(Tudalennau 214 – 215)
CLA(5)-30-20 – Papur 42 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 15 Hydref 2020
- 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
10.35
- 9 Bil Marchnad Fewnol y DU Papur briffio gan Lywodraeth Cymru**
10.35–10.50 (Tudalennau 216 – 246)
CLA(5)-30-20 – Papur 43 – Papur briffio gan Lywodraeth Cymru
CLA(5)-30-20 – Papur 44 – Datganiad ysgrifenedig, 15 Hydref 2020
- 10 Diweddariad Brexit – fframweithiau cyffredin**
10.50–10.55 (Tudalennau 247 – 256)
CLA(5)-30-20 – Papur 45 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
- 11 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020: Trafod yr adroddiad drafft**
10.55–11.05 (Tudalennau 257 – 269)
CLA(5)-30-20 – Papur 46 – Adroddiad drafft
- 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol: Trafod yr adroddiad drafft**
11.05–11.15 (Tudalennau 270 – 273)
CLA(5)-30-20 – Papur 47 – Adroddiad drafft

**13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu
Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2): Trafod yr adroddiad drafft**

11.15-11.25

(Tudalennau 274 – 278)

CLA(5)-30-20 – Papur 48 – Adroddiad drafft

14 Rheoliadau Covid-19: Trafod yr ohebiaeth

11.25-11.30

(Tudalennau 279 – 288)

CLA(5)-30-20 – Papur 49 – Llythyr gan y Llywydd, 8 Hydref 2020

CLA(5)-30-20 – Papur 50 – Papur briffio

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Tachwedd 2020.

SL(5)630 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud o dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac adrannau 87 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i ddwy set o Reoliadau i lacio a diwygio gofynion a osodir oddi tanynt:

1. Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313 (Cy. 95)) ("Rheoliadau 2005")

Mae Rheoliadau 2005 yn nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadu plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu.

Mae rheoliadau 3 i 8 o'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2005; dyma'r newidiadau a gaiff eu gwneud:

- Diwygiadau i'r broses gymeradwyo ar gyfer darpar fabwysiadwyr er mwyn galluogi cam 1 a cham 2 o'r broses asesu i redeg ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu y gellir casglu gwybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu ar hyn o bryd yn ystod cam 1 o'r broses gymeradwyo yn ystod cam 2.
- Llacio'r amserlen ar gyfer cymryd camau penodol. Mae amserlenni ar gyfer cam un a cham dau o'r broses o 2 fis (cam 1) a 4 mis (cam 2) yn parhau i fod ar waith ond dim ond pan fo'n rhesymol ymarferol y mae'n ofynnol i asiantaethau fodloni'r amserlenni.
- Mae'r terfyn o 6 mis ar yr amser y gall darpar fabwysiadwr ei adael rhwng cam 1 a cham 2 yn parhau, ond dim ond pan fo'n rhesymol ymarferol y mae'n ofynnol i fabwysiadwyr gadw at y terfyn amser.

2. Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (W. 261)) ("Rheoliadau 2015")

Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhwymedigaethau awdurdod lleol mewn perthynas â chynllunio, lleoli ac adolygu'r gofal a'r cymorth a ddarperir i blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod hwnnw yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2015 i ymestyn y cyfnod (o 16 i 24 wythnos) pan gaiff person sy'n perthyn i blentyn neu sy'n gysylltiedig â phlentyn fel arall gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Yn ddarostyngedig i reoliadau 9 a 10, mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn peidio â bod yn effeithiol ar 31 Mawrth 2021.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mewn perthynas â hawliau plant, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

"Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc; mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau'n effeithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar wasanaethau i oedolion. Cynhyrchwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar yr adeg y cymeradwywyd y hawddfrait dros dro i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ar ddechrau'r pandemig."

Ymddengys nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant y cyfeirir ato uchod ar gael yn gyhoeddus ac er y nodir y sylwadau uchod gan Lywodraeth Cymru, nid yw'n bosibl canfod a sefydlodd yr asesiad yn llawn nad oes ymyrraeth â hawliau plant a phobl ifanc o dan y Confensiwn. Byddai'n ddymunol gweld yr asesiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

Ymhellach, i fodloni'r rhwymedigaethau a osodwyd gan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ac oherwydd bod y broses ddiwygiedig wedi bod yn rhedeg yn anffurfiol ers yr hawddfrait dros dro, byddai'n briodol cynnal a chyhoeddi asesiad pellach yn benodol i'r Rheoliadau hyn i sefydlu na effeithir ar yr hawliau perthnasol.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Rheoliadau hyn dros bedair wythnos rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2020. Fodd bynnag,



nodir nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi eto ac, o'r herwydd, nid yw'n eglur sut yr ystyriwyd y canlyniadau hynny, os oeddent ar gael, wrth ddatblygu'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau hyn. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ar y pwynt hwn ac awgrymir y dylid cyhoeddi'r canlyniadau cyn gynted ag y bo modd.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r diwygiad i Reoliadau 2015 yn estyn uchafswm y cyfnod, o 16 i 24 o wythnosau, pan ganiateir i blentyn gael ei roi gyda pherthynas neu berson cysylltiedig i gael gofal maeth dan gymeradwyaeth dros dro. Nid yw'n glir a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant y cyfeirir ato ym mhwynt 1 uchod yn ystyried y risg uwch i blentyn o fod mewn cyfnod estynedig o ofal maeth mewn sefyllfa o'r fath. Nodir bod yr ymgynghoriad (gweler pwynt 2 uchod) yn cyfeirio at y terfyn amser uwch ond nad yw fel arall yn mynd i'r afael â mater y risg. Gan nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl asesu a ystyriwyd unrhyw ymatebion perthnasol wrth ddatblygu'r Rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi'r mesurau diogelwch a gynhwysir yn rheoliad 26(2) o Reoliadau 2015. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad cyn gynted ag y bo modd.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, nodir yr esboniad a ganlyn gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol:

"Mae'r angen am y Rheoliadau wedi'i nodi fel rhan o'r cynllunio wrth gefn ar gyfer materion a allai godi o ledaeniad COVID-19. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i baratoi Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 a bod y newidiadau a wnaed yn rhai dros dro (llai na 6 mis), ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y system gofal cymdeithasol i blant, ni ragwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol helaeth na newidiadau sylweddol i arferion gwaith.

Mae anghenion busnesau yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd wedi'u hystyried wrth baratoi'r Rheoliadau; bydd y diwygiadau'n lleihau neu'n dileu beichiau ar asiantaethau a'u bwriad yw cefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol yn fwy hyblyg yn ystod y pandemig."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau rhinweddau 1, 2 a 3 uchod.



Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
14 Hydref 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1082 (Cy. 244)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu
(Cymru) (Diwygiadau Amrywiol
(Coronafeirws) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddwy set o Reoliadau er mwyn llacio a diwygio gofynion a osodir odanynt. Mae'r diwygiadau yn cael eu gwneud er mwyn cynorthwyo'r sector gofal cymdeithasol i blant mewn ymateb i achosion a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru ac maent yn peidio â chael effaith ar 31 Mawrth 2021.

Mae **rheoliadau 3 i 6** yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313 (Cy. 95)), sy'n nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadu plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu. Maent yn gwneud diwygiadau i'r broses gymeradwyo ar gyfer darpar fabwysiadwyr i alluogi i wybodaeth y mae rhaid ei chasglu ar hyn o bryd yn ystod cam 1 o'r broses gymeradwyo gael ei chasglu yn ystod cam 2 ac yn llacio'r amserlen pan fo rhaid ymgymryd â gweithredoedd penodol. Mae **rheoliad 5** yn cywiro gwallau teipograffyddol.

Mae **rheoliad 8** yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (Cy. 261)) i estyn y cyfnod (o 16 i 24 o wythnosau) pan ganiateir i berson sy'n berthynas i blentyn neu sy'n gysylltiedig fel arall â phlentyn gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Mae **rheoliad 10** yn gwneud darpariaeth arbed i sicrhau bod rhai o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau i fod yn gymwys o dan amgylchiadau penodol ar ôl i'r diwygiadau ddod i ben ar 31 Mawrth 2021 yn unol â **rheoliad 9**.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1082 (Cy. 244)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu
(Cymru) (Diwygiadau Amrywiol)
(Coronafeirws) 2020**

Gwnaed 5 Hydref 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 7 Hydref 2020

Yn dod i rym 1 Tachwedd 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1) ac adrannau 87 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(2).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2020.

(1) 2002 p. 38 ("Deddf 2002"). *Gweler* y diffiniadau o "regulations", "appropriate Minister" a "the Assembly" yn adran 144(1) o Ddeddf 2002. Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) 2014 decc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".

Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

2. Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005⁽¹⁾ wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 6.

3. Yn rheoliad 27 (penderfyniad cyn asesu)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Os na chafwyd yr wybodaeth eto sy’n ofynnol o dan reoliadau 25 a 26 caiff yr asiantaeth fabwysiadu benderfynu bwrw ymlaen fel pe bai wedi gwneud penderfyniad o dan baragraff (1)(a).”;

(b) ym mharagraff (2), ar ôl “rhaid i’r asiantaeth” mewnosoder “, pan fo’n rhesymol ymarferol,”;

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn y geiriau agoriadol, ar ôl “i fabwysiadu plentyn,” mewnosoder “neu pan fo paragraff (1A) yn gymwys,”;

(ii) yn is-baragraff (b), ar ôl “rhaid iddo” mewnosoder “, pan fo’n rhesymol ymarferol,”.

4. Yn rheoliad 28 (asesiad cam 2)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle “o fewn chwe mis i’r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadydd” rhodder “yn dilyn hysbysiad”;

(ii) ar ôl “reoliad 27(4)” mewnosoder “neu pan fo rheoliad 27(1A) yn gymwys”;

(b) hepgorer paragraffau (2) a (3).

5. Yn rheoliad 30 (adroddiad darpar fabwysiadydd)—

(a) ym mharagraff (2)(c), yn lle “26(d)” rhodder “26(d) neu (dd)”;

(b) ym mharagraff (6)(b), yn lle “26(b) i (d)” rhodder “26(b) i (dd)”.

6. Yn rheoliad 30B (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “asiantaeth fabwysiadu” mewnosoder “, pan fo’n rhesymol ymarferol,”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

(1) O.S. 2005/1313 (Cy. 95) (“Rheoliadau 2005”), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/163 (Cy. 31) (“Rheoliadau 2020”). Rhoddodd Rheoliadau 2020 Ran 4 newydd yn Rheoliadau 2005. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

“(1A) Rhaid i’r asiantaeth fabwysiadu beidio â gwneud penderfyniad o dan baragraff (1) hyd nes ei bod wedi cael yr wybodaeth sy’n ofynnol o dan reoliadau 25 a 26.”;

- (c) ym mharagraff (2), hepgorer is-baragraff (a) a’r “neu” sydd yn union ar ei ôl;
- (d) ym mharagraff (5)(c)(ii), ar y dechrau mewnosoder “yn ddarostyngedig i baragraff (5A),”;
- (e) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(5A) Pan fo rheoliad 27(1A) yn gymwys a bo’r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried nad yw’r darpar fabwysiadudd yn addas i fabwysiadu plentyn oherwydd gwybodaeth a gafwyd o dan reoliad 25 neu reoliad 26, ni chaiff y darpar fabwysiadudd wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o’r dyfarniad o gymhwyster.”

Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

7. Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 8.

8. Yn rheoliad 26(1) (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad ag C), yn lle “16 wythnos” rhodder “24 wythnos”.

Dod i ben

9.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 10, mae’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar 31 Mawrth 2021.

(2) Nid yw’r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn cyn iddynt beidio â chael effaith.

Arbedion: asesiadau addasrwydd

10. Mewn achos pan fo asiantaeth fabwysiadu, ar 31 Mawrth 2021, yn y broses o asesu addasrwydd darpar fabwysiadudd yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, rhaid i’r asesiad hwnnw barhau fel pe bai’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau mewn grym.

(1) O.S. 2015/1818 (Cy. 261), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru

5 Hydref 2020

Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

Julie Morgan
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

07 Hydref 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020:

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005;
- Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau sydd â'r bwriad o gynorthwyo'r sector gofal cymdeithasol plant i reoli effeithiau'r syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) ("pandemig y coronafeirws") yng Nghymru. Mae'r newidiadau'n blaenoriaethu anghenion plant, gan lacio rhai rhwymedigaethau gweinyddol a gweithdrefnol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plant ond cynnal mesurau diogelu priodol mewn amgylchiadau mor eithriadol a deuant i rym ar 1 Tachwedd 2020.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cynhaliwyd ymgynghoriad dros gyfnod o bedair wythnos a ddechreuodd ar 27 Gorffennaf ac a ddaeth i ben ar 24 Awst 2020. Ceir manylion am y cyfnod ymgysylltu hwn yn adran 5 isod.

Oherwydd brys y sefyllfa sy'n gysylltiedig â pandemig COVID-19, cymeradwywyd hawddfrentiau dros dro mewn perthynas â rhai rhwymedigaethau gweinyddol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r broses asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr.

Bydd yr offeryn yn rhoi'r effaith deddfwriaethol i'r hawddfrentiau hyn am gyfnod penodedig, ac yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i awdurdodau lleol, darparwyr a gwasanaethau gyflawni dyletswyddau statudol wrth gynnal mesurau diogelu priodol. Mae'r rhain yn newidiadau risg isel i leddfu dyletswyddau gweinyddol a gweithdrefnol, ac maent yn ofynnol er mwyn sicrhau bod gofal cymdeithasol plant yn sefydlog yn ystod y pandemig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r newidiadau arfaethedig sydd i'w gwneud drwy'r Rheoliadau yn eang gyda'r sector gofal cymdeithasol plant drwy randdeiliaid allweddol i ymgynghori a rhybuddio bod newidiadau'n dod i rym.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Tachwedd 2020 i sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu'n briodol yn ystod pandemig COVID-19. Bydd y Rheoliadau'n peidio â bod yn effeithiol ar 31 Mawrth 2021. Gellir dwyn y dyddiad hwn ymlaen os bydd y sefyllfa'n gwella.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac adrannau 87 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i ddwy set o Reoliadau i lacio a diwygio gofynion a osodir oddi tanynt.

4.1 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313 (Cy. 95)) ("Rheoliadau 2005")

Mae Rheoliadau 2005 yn nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadu plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu.

Mae rheoliadau 3 i 8 o'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2005; dyma'r newidiadau a gaiff eu gwneud:

- Diwygiadau i'r broses gymeradwyo ar gyfer darpar fabwysiadwyr er mwyn galluogi cam 1 a cham 2 o'r broses asesu i redeg ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu y gellir casglu gwybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu ar hyn o bryd yn ystod cam 1 o'r broses gymeradwyo yn ystod cam 2.
- Llacio'r amserlen ar gyfer cymryd camau penodol. Mae amserlenni ar gyfer cam un a cham dau o'r broses o 2 fis (cam 1) a 4 mis (cam 2) yn parhau i fod ar waith ond dim ond pan fo'n rhesymol ymarferol y mae'n ofynnol i asiantaethau fodloni'r amserlenni.
- Mae'r terfyn o 6 mis ar yr amser y gall darpar fabwysiadwr ei adael rhwng cam 1 a cham 2 yn parhau, ond dim ond pan fo'n rhesymol ymarferol y mae'n ofynnol i fabwysiadwyr gadw at y terfyn amser.

4.2 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (W. 261)) ("Rheoliadau 2015")

Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhwymedigaethau awdurdod lleol mewn perthynas â chynllunio, lleoli ac adolygu'r gofal a'r cymorth a ddarperir i blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod hwnnw yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2015 i ymestyn y cyfnod (o 16 i 24 wythnos) pan gaiff person sy'n perthyn i blentyn neu sy'n gysylltiedig â phlentyn fel arall gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw.

4.3 Dod i ben

Yn ddarostyngedig i reoliadau 9 a 10, mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn peidio â bod yn effeithiol ar 31 Mawrth 2021.

4.4 Arbedion: asesiadau addasrwydd

Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth arbed fel bod yn rhaid i asiantaeth fabwysiadu sydd, ar 31 Mawrth 2021, yn y broses o asesu addasrwydd darpar fabwysiadwr yn unol â Rhan 4 o Reoliadau 2005, barhau fel petai'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn parhau mewn grym.

5. **Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd ymgynghoriad pedair wythnos ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2020. Rhannwyd negeseuon e-bost ar wahân hefyd a oedd yn cynnwys dolen we'r ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector gofal cymdeithasol i blant gan gynnwys:

- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Prif Benaethiaid Rhanbarthau Mabwysiadu
- Comisiynydd Plant Cymru
- CLILC
- Adoption UK Cymru
- Y Rhwydwaith Maethu
- Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru
- Cymdeithas Blant Dewi Sant
- Consortiwm Comisiynu Plant yng Nghymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Plant yng Nghymru

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law a gellir ei weld drwy <https://llyw.cymru/rheoliadau-mabwysiadu-maethu-cymru-diwygiadau-amrywiol-coronafeirws-2020>

6. **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Mae'r angen am y Rheoliadau wedi'i nodi fel rhan o'r cynllunio wrth gefn ar gyfer materion a allai godi o ledaeniad COVID-19. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i baratoi Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 a bod y newidiadau a wnaed yn rhai dros dro (llai na 6 mis), ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y system gofal cymdeithasol i blant, ni ragwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol helaeth na newidiadau sylweddol i arferion gwaith.

Mae anghenion busnesau yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd wedi'u hystyried wrth baratoi'r Rheoliadau; bydd y diwygiadau'n lleihau neu'n dileu beichiau ar asiantaethau a'u bwriad yw cefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol yn fwy hyblyg yn ystod y pandemig.

Prawf o Effeithiau Penodol

Y Gymraeg

Nid oes unrhyw oblygiadau effaith cadarnhaol nac andwyol ar y Gymraeg.

Hawliau Plant

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc; mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau'n effeithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar wasanaethau i oedolion. Cynhyrchwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar yr adeg y cymeradwywyd y hawddfrait dros dro i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ar ddechrau'r pandemig.

Preifatrwydd

Nid oes unrhyw oblygiadau effaith ar faterion preifatrwydd.

Asesu'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Rhowch \checkmark neu X
C1: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?	x
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	x
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a ydy'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	x
C4: Fyddai'r costau rheoleiddio'n cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau na'i gilydd?	x
C5: Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	x

C6: Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau sefydlu i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	x
C7: Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau parhaus i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	x
C8: A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector?	x
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	x

Mae'r prawf hidlo yn dangos nad yw'n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. O ganlyniad, ni chynhaliwyd asesiad manwl; felly nid oes asesiad manwl wedi'i gynnal.

SL(5)632 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i rai eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cofnod ar gyfer Gwlad Groeg yn y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt fel na fydd ynnysoedd Antiparos, Lesvos, Paros, Santorini, Serifos, Tinos a Zakynthos yng Ngwlad Groeg wedi eu heithrio mwyach o'r esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg. Bydd ynnysoedd Creta a Mykonos yn parhau i fod wedi eu heithrio o'r esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r



offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 9 Hydref 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn cadarnhau fel a ganlyn:

"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

13 Hydref 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1098 (Cy. 249)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 14) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Y gwledydd a'r tiriogaethau esempt hyn yw'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ond mae rhai o'r cofnodion yn Atodlen 3 yn ddarostyngedig i eithriadau mewn cysylltiad â thiriogaethau penodol. Felly, er enghraifft, o ran Gwlad Groeg, sy'n wlad esempt at ddibenion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae ynysuedd penodol sy'n rhan o Wlad Groeg wedi eu heithrio o'r esemptiad.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt o ran Gwlad Groeg; ac mae hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â'r diwygiad.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel na fydd, o 4:00 a.m. ar 10 Hydref 2020, ynysuedd Antiparos, Lésvos, Páros, Santorini, Serifos, Tínos a Zákynthos yng Ngwlad Groeg wedi eu heithrio

mwyach o'r esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg. Bydd ynysoedd Creta a Mykonos yn parhau i fod wedi eu heithrio o'r esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiad a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1098 (Cy. 249)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 14) 2020

Gwnaed am 2.24 p.m. ar 9 Hydref 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 9 Hydref 2020*

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 10 Hydref 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 10 Hydref 2020.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

RHAN 2

Diwygiad i Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiad i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y cofnod ar gyfer Gwlad Groeg, yn lle'r geiriau o “Antiparos” hyd at y diwedd rhodder “Creta a Mykonos”.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran tiriogaethau Antiparos, Lésvos, Páros, Santorini, Serifos, Tinos a Zákynthos yng Ngwlad Groeg.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 10 Hydref 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o diriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, neu ar ôl bod mewn tiriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, a
- (b) diwrnod olaf ynysiad P yw 10 Hydref 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(3) Nid yw hepgor y tiriogaethau o Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan reoliad 2 yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 10 Hydref 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn tiriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi o fewn y cyfnod o 14 o

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220) O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231) ac O.S. 2020/1080 (Cy. 243).

ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(5) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â thiriogaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, drwy gyfeirio at ba un a oedd y diriogaeth yn diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(6) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 2.24 p.m. ar 9 Hydref 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Hydref 2020

1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Biddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn dod i rym

Yn unol ag adrannau 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau wedi dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddiwynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – yn fwyaf diweddar ar 26 Medi 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i lawr oddi wrth y Gydganolfan Bioggiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn ynysoedd Groegaidd Paros ac Antiparos, Lesvos, Santorini, Tinos a Zakynthos wedi lleihau. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r ynysoedd Groegaidd Paros ac Antiparos, Lesvos, Santorini, Tinos a Zakynthos bellach fod yn eithriadau i'r esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg. Fodd bynnag, bydd ynysoedd Creta a Mykonos yn parhau i fod yn eithriadau i'r esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg.

Bydd y diwygiadau yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hyn am 4:00am neu wedi hynny ar 10 Hydref 2020. Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn, yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3347/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru

9 Hydref 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 14) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach, felly ni fydd ynsoedd Groegaidd Antiparos, Lesvos, Paros, Santorini, Serifos, Tinos a Zakynthos yn cael eu heithrio mwyach o'r esemptiad presennol ar gyfer Gwlad Groeg. Bydd ynsoedd Creta a Mykonos yn parhau i gael eu heithrio rhag yr esemptiad ar gyfer Gwlad Groeg a bydd yn parhau i fod yn ofynnol i deithwyr o'r ynsoedd hynny hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r tiriogaethau hynny.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in replying.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG

GAN

LYWODRAETH CYMRU

TEITL Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)

DYDDIAD 8 Hydref 2020

GAN Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gydganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd yr ynysydd Groegaidd Paros ac Antiparos, Lesvos, Santorini, Milos (gan gynnwys ynys Serifos), Tinos a Zakynthos yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 10 Hydref.

Eitem 2.3

SL(5)631 - Gorchymyn (Cynrychiolaeth y Bobl) (Eithrio Treuliau Etholiad) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio:

- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (OS 20072007/236),
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 1983

Ar hyn o bryd, yn achos etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, pan fo ymgeisydd anabl yn gofyn am fesurau wedi'u haddasu'n arbennig neu addasiadau rhesymol er mwyn cymryd rhan mewn ymgyrch etholiadol ar sail gyfartal ag ymgeisydd nad yw'n anabl, yna mae'r treuliau ychwanegol cysylltiedig yn cael eu cynnwys naill ai o fewn o'u terfynau gwariant eu hunain neu derfynau gwariant plaid wleidyddol, fel y bo'n briodol.

Hefyd, yn achos etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol Cymru, pan fo angen cyfieithu i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, caiff y gost hon hefyd ei chynnwys naill ai yn nhreuliau'r ymgeisydd, neu o fewn terfynau gwariant ymgyrch plaid wleidyddol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth uchod i eithrio'r costau yr eir iddynt neu y gellir eu priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg o dreuliau'r ymgeisydd ac o derfynau gwariant ymgyrch plaid wleidyddol, yn unol â'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â darpariaethau Deddf y Gymraeg 1993.

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pwynt a ganlyn wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Nodwn fod paragraffau 5.1-5.4 yn y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n anffurfiol ac yn ffurfiol ynghylch y Rheoliadau hyn. Nodwn yn benodol sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a sut y datblygodd y gwaith o ddrafftio'r Gorchymyn hwn, fel y nodir isod yn y Memorandwm Esboniadol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darparu cyngor a phwyntiau i'w hystyried wrth greu esemptiad rhag treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn seiliedig ar eu hasesiad o ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ac mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau hynny wedi eu hymgorffori wrth drafftio'r Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, ni chafodd argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y dylid cymhwyso prawf rhesymoldeb i'r esemptiad ar gyfer treuliau cyfieithu ei gynnwys gan y byddai hyn yn arwain at wahaniaeth mewn perthynas â'r dull a ddefnyddiwyd gydag ymgrychwyr di-blaid.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

12 Hydref 2020



Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy. XX)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl
(Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru)
(Diwygio) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.

Gwnaed Gorchymyn 2007 a gorchymynion diwygio dilynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pwerau galluogi i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007.

Mae Gorchymyn 2007 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â threuliau etholiad fel y diffinnir "election expenses" yn erthygl 63 o'r Gorchymyn hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o'r treuliau hynny, fel y nodir yn erthygl 47 o'r Gorchymyn hwnnw.

Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio (“*excluded*”) rhag bod yn dreuliau etholiad o fewn yr ystyr a roddir i “election expenses” yn erthygl 63 o’r Gorchymyn hwnnw. Nid yw’r materion hynny yn ddarostyngedig i’r gofynion a ddisgrifir uchod, gan gynnwys y rhai sy’n cyfyngu ar y swm o dreuliau a ganiateir.

Mae erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i’w priodoli’n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i’r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i’w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o’r Saesneg i’r Gymraeg neu o’r Gymraeg i’r Saesneg, neu sy’n deillio o ganlyniad i hynny.

Mae Rhan 3 o’r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983.

Mae Deddf 1983 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â threuliau etholiad fel y diffinnir “election expenses” yn adran 90ZA o’r Ddeddf honno. Mae’r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o’r treuliau hynny, fel y nodir yn adran 76 o’r Ddeddf honno.

Mae Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio rhag bod yn dreuliau etholiad o fewn yr ystyr a roddir i “election expenses” yn adran 90ZA o’r Ddeddf honno. Nid yw’r materion hynny yn ddarostyngedig i’r gofynion a nodir uchod, gan gynnwys y rhai sy’n cyfyngu ar y swm o dreuliau a ganiateir.

Mae erthygl 5 o’r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i’w priodoli’n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i’r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 5 o’r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i’w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o’r Saesneg i’r Gymraeg neu o’r Gymraeg i’r Saesneg, neu sy’n deillio o ganlyniad i hynny.

Mae Rhan 4 o’r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 fel y mae’n gymwys i ymgeiswyr plaid yn etholiadau’r Senedd ac mewn etholiadau llywodraeth leol.

Mae Deddf 2000 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â gwariant ymgyrchu fel y diffinnir “campaign expenditure” yn adran 72 o’r Ddeddf honno.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o'r treuliau hynny, fel y nodir yn adran 79 o'r Ddeddf honno.

Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio rhag bod yn wariant ymgyrchu o fewn yr ystyr a roddir i "campaign expenditure" yn adran 72 o'r Ddeddf honno. Nid yw'r materion hynny yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir uchod, gan gynnwys y rhai sy'n cyfyngu ar y swm o wariant ymgyrchu a ganiateir.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i'w priodoli'n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i'r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu sy'n deillio o ganlyniad i hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn gweithredu diwygiadau technegol arferol nad ydynt yn cael unrhyw effaith, neu nad ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy. XX)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl
(Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru)
(Diwygio) 2020**

Gwnaed

Yn dod i rym

19 Tachwedd 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1) a 157(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1) a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 15(1) o Ran 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(2) a pharagraff 4 o Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(3), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(4).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 7(1), (2)(e) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

-
- (1) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
- (2) 1983 p. 2. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 27(1) a (5) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22).
- (3) 2000 p. 41.
- (4) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weindogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 15(2) o Ran 3 o Atodlen 4A(1) i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac adran 156(4)(j) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(2).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2020 ond—

- (a) nid yw erthyglau 2 a 3 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021;
- (b) nid yw erthyglau 4 a 5 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad llywodraeth leol yng Nghymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021;
- (c) mae erthyglau 6 a 7 yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru neu etholiad llywodraeth leol yng Nghymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

- (a) ystyr “Gorchymyn 2007” yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(3),
- (b) ystyr “Deddf 1983” yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac
- (c) ystyr “Deddf 2000” yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

-
- (1) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ym mharagraff 15(2) o Ran 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
 - (2) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 156(4) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
 - (3) O.S. 2007/236.

RHAN 2

Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o dreuliau etholiad: etholiadau Senedd Cymru

Diwygio Gorchymyn 2007

2. Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio yn unol ag erthygl 3.

3. Yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Eithriadau cyffredinol) ar ôl paragraff 13 mewnosoder y canlynol—

“**13A.**—(1) Any matter that is reasonably attributable to the candidate’s disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred.

(2) In this paragraph “disability”, has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010(1).

13B. Expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

RHAN 3

Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o dreuliau etholiad: etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

Diwygio Deddf 1983

4. Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 5.

5. Yn Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol)—

(a) ym mharagraff 7A hepgorer is-baragraff (3);

(b) ar ôl paragraff 8 mewnosoder y canlynol—

“**8A.** In relation to a local government election in Wales, expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

(1) 2010 p. 15.

Rhan 4

Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o wariant ymgyrchu: etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

Diwygio Deddf 2000

6. Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 7.

7. Yn Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (eithriadau)—

- (a) ym mharagraff 2(1)(d) ar ddiwedd yr is-baragraff, hepgorer y gair “or”;
- (b) ym mharagraff 2(1)(e) ar ddiwedd yr is-baragraff, hepgorer y gair “him.” a mewnosoder “him; or”;
- (c) ar ôl paragraff 2(1)(e) mewnosoder y canlynol—

“(f) any expenses incurred in respect of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales:

- (i) relating to any matter that is reasonably attributable to the candidate’s disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred; and
- (ii) in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

- (d) ar ôl paragraff 2(2) mewnosoder y canlynol—

“(3) In relation to sub-paragraph 2(1)(f)(i) “disability”, has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010.”

Enw

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
07 Hydref 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983"), gan eithrio treuliau sy'n ymwneud ag anabledd ymgeisydd a'r rheini sy'n ymwneud â chostau yr eir iddynt neu sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg o dreuliau etholiad ymgeisydd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000"), sy'n eithrio o'u cynnwys yng ngwariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol, dreuliau sy'n ymwneud ag anabledd ymgeisydd a'r costau hynny yr eir iddynt neu sydd i'w priodoli i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol, y naill a'r llall. Mae'r Gorchymyn yn diwygio ymhellach Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") sy'n eithrio treuliau sy'n ymwneud ag anabledd ymgeisydd a'r costau hynny yr eir iddynt neu sydd i'w priodoli i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg o dreuliau etholiad ymgeisydd plaid neu ymgeisydd annibynnol yn etholiadau etholaethol y Senedd.

1.2 Ar hyn o bryd, mae unrhyw dreuliau yr eir iddynt gan ymgeisydd neu blaid wleidyddol o ganlyniad i addasiadau rhesymol sy'n ymwneud â nam ymgeisydd er mwyn ei alluogi i sefyll mewn etholiad, fel yr angen am ddogfennaeth mewn braille neu ddarpariaeth dehonglwr laith Arwyddion Prydain yn cael eu cynnwys naill ai yng nhreuliau'r ymgeisydd neu derfynau gwariant ymgyrchu cyffredinol y blaid wleidyddol. Yn yr un modd, mae'r costau yr eir iddynt neu sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgyrchu yng Nghymru hefyd yn cael eu cynnwys yn nhreuliau ymgeisydd neu derfynau gwariant ymgyrchu plaid wleidyddol.

1.3 Ni fyddai materion gwariant a fyddai'n gyffredin i ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr nad ydynt yn anabl, megis argraffu taflenni ymgyrchu i'w dosbarthu i'r cyhoedd yn arferol, yn dod o fewn cwmpas yr eithriad hwn. Fodd bynnag, pan fo ymgeisydd anabl yn gofyn am fesurau wedi eu haddasu'n arbennig i gymryd rhan mewn ymgyrchu ar sail gyfartal ag ymgeisydd nad yw'n anabl, mae'r treuliau ychwanegol yr eir iddynt wrth ddarparu mesurau o'r fath, yn debygol o ddod o fewn cwmpas y Gorchymyn hwn.

1.4 Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn eithrio'r costau yr eir iddynt neu sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg o dreuliau ymgeisydd a therfynau gwariant ymgyrchu plaid wleidyddol, y naill a'r llall, yn unol â'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg fel y darperir gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Treuliau etholiad

3.1. Cafodd cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â materion etholiadol yng Nghymru ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd Cymru erbyn hyn, gan Ddeddf Cymru 2017. Trosglwyddodd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019, hefyd i Weinidogion Cymru, swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidog y Goron mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

3.2. Rhestrir y materion sydd wedi eu heithrio o'r diffiniad o "election expenses" yn Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983, Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, nid yw treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd a chyfieithu wedi eu heithrio o'r diffiniad o "election expenses" yn adran 90ZA o Ddeddf 1983, adran 72 o Ddeddf 2000 neu erthygl 63 o Orchymyn 2007. O'r herwydd, mae treuliau o'r fath yn cyfrif tuag at dreuliau ymgeisydd neu derfynau gwariant ymgyrchu plaid wleidyddol yn ôl eu trefn.

Treuliau sy'n Gysylltiedig ag Anabledd a Chostau Cyfieithu

3.3. Yn unol ag Atodlen 8A i Ddeddf 2000, mae treuliau ymgyrchwyr di-blaid (yn hytrach nag ymgeiswyr) y gellir eu priodoli'n rhesymol i nam unigolyn wedi eu heithrio o derfynau gwariant etholiadol yn ogystal â chostau cyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg.

3.4. Mae treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd wedi eu heithrio o derfynau gwariant etholiadau yn etholiadau Senedd y DU¹ ac etholiadau Senedd yr Alban² ac etholiadau cynghorau lleol yr Alban³ a Lloegr ac is-etholiadau dilynol.

3.5. Ac eithrio fel y nodir ym mharagraff 3.3 uchod, nid oes unrhyw ddarpariaethau sydd i'w cael eisoes ar hyn o bryd ynghylch eithrio treuliau cyfieithu o dreuliau ymgeisydd neu wariant ymgyrchu plaid wleidyddol yng Nghymru.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

3.6. Deddfodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gyfer trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus i'r graddau y bo'n ymarferol rhesymol a gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'i dilynodd ddiweddar'r fframwaith cyfreithiol a fodolai eisoes mewn perthynas

¹ Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Diwygio) 2019

² Gorchymyn Senedd yr Alban (Etholiadau etc.) 2015 (O.S. 2015/425)

³ Gorchymyn Diwygio Etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban (Rhif 2) 2016 (O.S. 2016/354)

â defnyddio'r iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ochr yn ochr â'r Saesneg.

3.7. Ar y sail honno, dylai cost cyfieithu (o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg) gael ei heithrio o dreuliau ymgeiswyr a therfynau gwariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol er mwyn hybu bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae terfynau wedi eu nodi mewn deddfwriaeth o ran y symiau y gall ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol mewn etholiadau eu gwario ar eu priod ymgyrchoedd etholiadol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno manylion eu treuliau etholiadol i'r Comisiwn Etholiadol y mae'n ofynnol iddo o dan adran 145 o Ddeddf 2000 fonitro cydymffurfiaeth ymgeiswyr ac asiantau â rheolau ar wariant etholiadau ymgeiswyr a rhoddion.

4.2 Gall treuliau ymgeisydd a gwariant ymgyrchu plaid wleidyddol gwmpasu pethau fel:

- Hysbysebu - papurau newydd, ar lein, posteri etc.
- Cyfathrebu digymell - llythyrau, taflenni ac e-byst
- Costau trafndiaeth
- Costau staff a gweinyddu - ffôn, deunydd ysgrifennu etc.

4.3 Ar hyn o bryd, ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, lle mae angen mesurau wedi eu haddasu'n arbennig neu addasiadau rhesymol ar ymgeisydd anabl i gymryd rhan mewn ymgyrchu ar sail gyfartal ag ymgeisydd nad yw'n anabl, caiff treuliau ychwanegol o'r fath eu cynnwys naill ai o fewn ei derfynau gwariant ei hun neu blaid wleidyddol, fel y bo'n briodol.

4.4 At hynny, ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, lle mae angen cyfieithu i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg mae'r gost hon hefyd wedi ei chynnwys naill ai o fewn treuliau ymgeisydd, neu derfynau gwariant ymgyrchu plaid wleidyddol.

4.5 Cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Diwygio) 2019 i greu categori newydd o dreuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd sydd wedi eu heithrio o derfynau gwariant etholiadol. Nid oedd yn berthnasol i etholiadau datganoledig. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn hefyd er mwyn i dreuliau ymgyrchu sy'n gysylltiedig ag anabledd gael eu heithrio o derfynau gwariant ymgeisydd i fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae eithriadau tebyg mewn grym a gyflwynwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban a llywodraeth leol yr Alban.

4.6 Trwy gyflwyno'r Gorchymyn hwn ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru, caiff y sefyllfa yng Nghymru ei chysoni â'r sefyllfa yn Lloegr

a'r Alban mewn perthynas â threuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd ac mae'n cefnogi deddfwriaeth bresennol Cymru trwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

4.7 Os na wneir y Gorchymyn, gallai pobl anabl sy'n sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd neu lywodraeth leol fod o dan anfantais ariannol o gymharu ag ymgeiswyr nad ydynt yn anabl yn yr etholiadau hynny yng Nghymru, gan y bydd rhai o'r treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'u galluogi i oresgyn rhwystrau y maent yn eu hwynebu fel person anabl sy'n dymuno sefyll mewn etholiad. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, rhaid datgan y costau hynny a byddant yn cyfrif tuag at derfyn eu gwariant fel ymgeiswyr. Gall llawer o'r treuliau hyn sy'n gysylltiedig ag anabledd fod yn gannoedd neu'n filoedd o bunnoedd. Gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn ceisiadau am gymorth ariannol a wnaed gan bobl anabl i gronfeydd Mynediad i Swyddi Etholedig⁴ Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Costau Cyfieithu

4.8 Mewn perthynas â pheidio ag eithrio costau cyfieithu, gellid dadlau nad yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal os yw'n ofynnol i ymgeisydd neu blaid wleidyddol roi cyfrif am gostau cyfieithu i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg o fewn eu priod derfynau gwariant. Os nad yw'r Gymraeg i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ni ddylid ystyried bod darparu deunyddiau ymgyrchu yn y Gymraeg ar gyfer yr etholwyr yn anfantais ariannol i ymgeisydd neu blaid wleidyddol. Trwy eithrio costau cyfieithu o dreuliau ymgeiswyr a therfynau gwariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol, caiff agwedd fwy cadarnhaol, sydd hefyd yn hwyluso ei defnydd, ei chreu tuag at y Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus.

5. Ymgynghori

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n anffurfiol ac yn ffurfiol â'r Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ynghylch eithrio treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd a threuliau cyfieithu mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. O ran eithrio treuliau o'r fath o'r terfynau gwariant ar gyfer ymgeiswyr i etholiadau'r Senedd, y cyfan sy'n ofynnol yw argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol y dylid gwneud hynny, ac maent yn cadarnhau eu bod wedi gwneud yr argymhelliad hwnnw. Gallai Gweinidogion

4

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/722039/race-in-workplace-mcgregor-smith-review.pdf

<https://inclusionScotland.org/wp-content/uploads/2018/05/Access-to-Elected-Office-Fund-Scotland-2017-Evaluation-Report.pdf>

hefyd arfer y pŵer i wneud gorchmynion wedi i ymarfer ymgynghori gael ei gynnal, yn annibynnol ar argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darparu cyngor a phwyntiau i'w hystyried wrth greu esemptiad rhag treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn seiliedig ar eu hasesiad o ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ac mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau hynny wedi eu hymgorffori wrth ddrafftio'r Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, ni chafodd argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y dylid cymhwyso prawf rhesymoldeb i'r esemptiad ar gyfer treuliau cyfieithu ei gynnwys gan y byddai hyn yn arwain at wahaniaeth mewn perthynas â'r dull a ddefnyddiwyd gydag ymgyrchwyr di-blaid.

5.2 Yn 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymchwil hefyd i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl fel rhan o'i Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'r mathau o gymorth sydd eu hangen ar bobl anabl wrth sefyll ar gyfer swydd etholedig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried adroddiadau gwerthuso Cynllun EnAble Llywodraeth y DU a Chynllun Mynediad i Swyddi Etholedig Llywodraeth yr Alban sy'n darparu cyllid grant i helpu pobl anabl i sefyll ar gyfer swydd etholedig.

5.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried ymatebion i Gwestiwn 20 Creu Senedd i Gymru, papur ymgynghori Comisiwn y Senedd, a ofynnodd i ymatebwyr a ddylai treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd a threuliau cyfieithu beidio â chyfrif tuag at derfynau gwariant pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd fel y maent eisoes ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid. Teimlai 71 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad na ddylai costau sy'n ymwneud â chyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gyfrif tuag at derfynau gwariant a theimlai 86 y cant na ddylai costau anabledd unigolyn gyfrif tuag at derfynau gwariant, felly roedd cefnogaeth gadarn ar gyfer y ddau faes.

5.4 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgysylltu â'u cydweithwyr yn Uned y Gymraeg ac Adran Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru i geisio eu barn a'u cyngor wrth ddatblygu'r polisi hwn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi hysbysu Comisiynydd y Gymraeg a'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl o'r bwriad polisi hwn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Ystyriwyd yr angen am Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan gyfeirio at God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth. Ni ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y Gorchymyn hwn gan ei fod yn gweithredu gwelliannau technegol nad ydynt yn cael unrhyw effaith, neu ddim effaith sylweddol, ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

SL(5)633 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 i ehangu pwerau awdurdodau lleol i gyhoeddi cyfarwyddydau manau cyhoeddus fel y caiff y cyfarwyddydau wahardd neu reoleiddio gweithgareddau penodedig mewn man cyhoeddus, gan gynnwys yfed alcohol.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Bydd awdurdodau lleol yn cael cyhoeddi cyfarwyddydau dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint y coronafeirws yn ardal yr awdurdod lleol a bod hynny'n gymesur i'r nod hwnnw. Rhaid i'r awdurdod lleol sydd wedi cyhoeddi'r cyfarwyddyd ei adolygu o leiaf unwaith bob saith niwrnod pan fydd mewn grym, ac os nad yw'n angenrheidiol nac yn gymesur mwyach, rhaid ei ddirymu. Ar ben hynny, caiff parti sydd â buddiant apelio yn erbyn unrhyw gyfarwyddydau o'r fath gerbron llys ynadon.



Hefyd, nodwn y paragraff a ganlyn mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol:

O ran yfed alcohol yn benodol, mae'r pŵer ehangach o ran cyfarwyddydau mannau cyhoeddus yn ategu'r cyfyngiadau ar werthu alcohol a gyflwynwyd yng Nghymru ar 24 Medi gan y bydd yn helpu awdurdodau lleol i atal cynullïadau o bobl rhag yfed alcohol mewn ardaloedd dynodedig o ganlyniad i gau mangre drwyddedig yn gynt. Bydd ymddygiadau o'r fath yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws gan fod yfed alcohol yn arwain at lai o gydymffurfio â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ac yn gwneud gorfodaeth yn anoddach.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fel yr amlinellwyd pan wnaed y Rheoliadau gwreiddiol, drwy gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad agos â swyddogion gorfodi awdurdodau lleol sydd wedi dweud bod angen y pwerau hyn pan fydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd yn bodoli ac nad yw'r pwerau cyfredol yn ddigonol.

Gyda Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion ac i fusnesau drwy gydol y newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sydd ar waith i ymateb i'r bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Hydref 2020



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1100 (Cy. 250)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol
etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020. Mae'r Rheoliadau—

- (a) yn ehangu'r pŵer a roddir i awdurdodau lleol i ddyroddi cyfarwyddydau manau cyhoeddus fel y caiff cyfarwyddyd wahardd gweithgareddau penodedig mewn man cyhoeddus yn ogystal â chyfyngu ar fynediad iddo;

- (b) yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1100 (Cy. 250)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol
etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Gwnaed am 3.50 p.m. ar 9 Hydref 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 9 Hydref 2020*

Yn dod i rym 12 Hydref 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 12 Hydref 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 7 rhodder—

“Cyfarwyddydau manau cyhoeddus

7.—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad ag unrhyw fan cyhoeddus yn ardal yr awdurdod.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyr “man cyhoeddus” yw man yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd fynediad iddo neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddo, pa un ai drwy dalu neu fel arall, gan gynnwys—

- (a) tir sy'n ardd gyhoeddus neu a ddefnyddir at ddiben hamdden gan aelodau'r cyhoedd;
- (b) tir sy'n “cefn gwlad agored” fel y diffinnir “open country” yn adran 59(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(2), fel y'i darllenir gydag adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(3);
- (c) unrhyw briffordd y mae gan y cyhoedd fynediad iddi;
- (d) llwybr cyhoeddus;
- (e) tir mynediad.

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225).

(2) 1949 p. 97.

(3) 1968 p. 41. Mae adran 16 wedi ei diwygio gan adran 111 o Ddeddf Trafnidiaeth 1968 (p. 73), Atodlen 27 i Ddeddf Dŵr 1989 (p. 15) ac O.S. 2012/1659. Mae diwygiadau eraill i adran 16 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) Caiff cyfarwyddyd man cyhoeddus osod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau mewn perthynas—

- (a) â mynediad i'r man cyhoeddus (gan gynnwys, yn benodol, gwahardd mynediad ar adegau penodedig);
- (b) â gweithgareddau a gynhelir yn y man cyhoeddus (gan gynnwys, yn benodol, gwahardd yfed alcohol neu gyfyngu ar yfed alcohol).

(4) Ond ni chaiff cyfarwyddyd man cyhoeddus—

- (a) gosod gwaharddiadau, gofynion na chyfyngiadau—
 - (i) mewn perthynas â mynediad i lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (gweler yn hytrach reoliad 14);
 - (ii) ar yfed alcohol mewn mangre yn y man cyhoeddus sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol;
- (b) gosod gwaharddiadau na gofynion mewn perthynas â mynediad i'r man cyhoeddus neu weithgaredd a gynhelir yn y man os yw gwaharddiad neu ofyniad o'r fath yn cael effaith mewn perthynas â'r man yn rhinwedd gorchymyn diogelu manau agored cyhoeddus a wneir o dan adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014⁽¹⁾.

(5) Pan fo—

- (a) is-ddeddf yn gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad sy'n ymwneud â mynediad i fan cyhoeddus neu weithgaredd a gynhelir ynddo, a
- (b) mynediad i'r man cyhoeddus neu gynnal y gweithgaredd hwnnw ynddo wedi ei wahardd neu ei gyfyngu gan gyfarwyddyd man cyhoeddus neu'n ddarostyngedig i ofyniad mewn cyfarwyddyd man cyhoeddus,

nid oes unrhyw effaith i'r gwaharddiad, y gofyniad neu'r cyfyngiad a osodir gan yr is-ddeddf mewn perthynas â'r man cyhoeddus am gyhyd ag y mae'r cyfarwyddyd man cyhoeddus yn cael effaith.

(1) 2014 p. 12.

(6) Rhaid i gyfarwyddyd man cyhoeddus ddisgrifio'r man cyhoeddus yn ddigon manwl er mwyn gallu canfod ei ffiniau.

(7) Rhaid i awdurdod lleol sy'n rhoi cyfarwyddyd man cyhoeddus gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol—

- (a) pan fo'r cyfarwyddyd yn gwahardd mynediad i'r man cyhoeddus neu'n cyfyngu ar fynediad iddo, er mwyn atal mynediad o'r fath neu gyfyngu arno (gan gynnwys drwy godi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cyfarwyddyd);
- (b) pan fo'r cyfarwyddyd yn gwahardd cynnal gweithgaredd yn y man cyhoeddus, yn cyfyngu ar y gweithgaredd hwnnw neu'n gosod gofynion ar y gweithgaredd hwnnw, er mwyn dwyn y cyfarwyddyd i sylw aelodau'r cyhoedd a all fod yn y man cyhoeddus (gan gynnwys drwy godi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cyfarwyddyd);
- (c) er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarwyddyd i bersonau sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus;
- (d) er mwyn sicrhau y dygir y cyfarwyddyd i sylw unrhyw berson sy'n berchen ar fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu mangre ynddo neu sy'n gyfrifol am fangre ynddo.

(8) Pan fo cyfarwyddyd man cyhoeddus yn gwahardd mynediad i'r man cyhoeddus neu'n cyfyngu ar fynediad iddo, rhaid i unrhyw berson, ac eithrio awdurdod lleol, sy'n berchen ar fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu mangre ynddo neu sy'n gyfrifol am fangre ynddo gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn atal mynediad i'r fangre neu gyfyngu ar fynediad i'r fangre yn unol â'r cyfarwyddyd.

(9) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

- (a) mynd i fan gyhoeddus neu aros ynddo;
- (b) cynnal gweithgaredd mewn man cyhoeddus,

yn groes i waharddiad, gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan gyfarwyddyd man cyhoeddus.

(10) Ni chaiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â

man cyhoeddus sy'n cynnwys eiddo y mae adran 73 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) Act 1984(1) (eiddo'r Goron) yn gymwys iddo.

(11) Ond caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â man o'r fath os yw'r awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb o dan adran 73(2) â'r awdurdod priodol (o fewn yr ystyr a roddir i "appropriate authority" gan yr adran honno) fod—

- (a) adran 45C o'r un Ddeddf, a
- (b) y Rheoliadau hyn,

yn gymwys i'r eiddo (yn ddarostyngedig i unrhyw delerau a gynhwysir yn y cytundeb).

(12) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae i "tir mynediad" yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(c),
- (b) mae i "alcohol" yr ystyr a roddir i "alcohol" gan adran 191 o Ddeddf Trwyddedu 2003(2);
- (c) mae i "llwybr cyhoeddus" yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(b), a
- (d) mae mangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol pan fo awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi i'r fangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac mae i "awdurdodiad" yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno."

(3) Yn rheoliad 10(b), yn lle "rheoliad 7(5)" rhodder "rheoliad 7(6)".

(4) Yn rheoliad 16—

- (a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "7(7)" rhodder "7(8)";
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl "gyfarwyddyd man cyhoeddus" mewnosoder "sy'n gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â mynediad i'r man";
- (c) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn man cyhoeddus yn gweithredu yn groes i gyfarwyddyd man cyhoeddus sy'n gosod gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â chynnal gweithgaredd yn y man, caiff y cwnstabl gymryd unrhyw gamau y mae'r cwnstabl yn

(1) Mae adran 73 wedi ei diwygio gan Atodlen 11 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).
 (2) 2003 p. 17. Mae adran 191 wedi ei diwygio gan adran 135 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3) ac O.S. 2006/2407.

ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal y person rhag parhau i weithredu yn groes i'r cyfarwyddyd (gan gynnwys symud y person o'r man).”;

(d) ym mharagraff (6)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “neu (5)” rhodder “, (5) neu (5A)”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “neu (5)(b)” rhodder “, (5)(b) neu (5A)”;

(e) ym mharagraff (7), yn lle “neu (5)” rhodder “, (5) neu (5A)”.

(5) Yn rheoliad 18(1)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “7(8)” rhodder “7(9)”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “7(7)” rhodder “7(8)”.

(6) Ym mhob lle y mae'n digwydd yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (7)—

(a) yn lle “dirymu” (pan nad yw'n cael ei ddilyn gan “cyfarwyddyd” neu “cyfarwyddydau”) rhodder “thynnu'n ôl” ac yn lle “ddirymu” (pan nad yw'n cael ei ddilyn gan “cyfarwyddyd”) rhodder “dynnu'n ôl”;

(b) yn lle “ddirymu'r cyfarwyddyd” rhodder “dynnu'r cyfarwyddyd yn ôl”;

(c) yn lle “dirymu cyfarwyddyd” rhodder “tynnu cyfarwyddyd yn ôl” ac yn lle “ddirymu cyfarwyddyd” (pan nad yw'n cael ei ragflaenu gan “neu”) rhodder “dynnu cyfarwyddyd yn ôl”;

(d) yn lle “dirymiad” rhodder “tynnu'n ôl” ac yn lle “ddirymiad” rhodder “dynnu'n ôl”;

(e) yn lle “a dirymu cyfarwyddydau” rhodder “cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl” ac yn lle “neu ddirymu cyfarwyddyd” rhodder “cyfarwyddyd neu dynnu cyfarwyddyd yn ôl”.

(7) Y darpariaethau yw—

(a) rheoliadau 8, 9 a 13 gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, eu penawdau;

(b) penawdau Penodau 1 a 3 o Ran 2.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 3.50 p.m. ar 9 Hydref 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

09 Hydref 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 i ehangu pwerau awdurdodau lleol i gyhoeddi cyfarwyddydau manau cyhoeddus fel y caiff y cyfarwyddydau wahardd neu reoleiddio gweithgareddau penodedig mewn man cyhoeddus, gan gynnwys yfed alcohol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Mae'r darpariaethau yn caniatáu i awdurdodau lleol gyhoeddi cyfarwyddydau a allai reoleiddio'r defnydd o fangreodded, neu'r mynediad iddynt. Byddai modd arfer y pwerau hyn hyd yn oed pe byddai'r rhai sy'n gyfrifol am y fangre yn y manau cyhoeddus yn cydymffurfio fel arall â'r gofynion o dan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu neu o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, ond lle bo ffactorau eraill yn golygu y gallai parhau i gadw'r fangre neu'r lleoliad yn agored arwain at risg uwch o drosglwyddo'r feirws.

Er bod y Rheoliadau'n berthnasol i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid gallu cyfiawnhau pob cyfyngiad a gofyniad o'r fath ar y sail eu bod yn ceisio cyflawni nod teg, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i fygythiad y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal yn gymesur i'r angen i osgoi cynnydd yng nghyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Bydd y Rheoliadau'n berthnasol, neu'n mae'n bosibl y byddant yn berthnasol, i hawliau o dan Erthygl 6 (yr hawl i gael treial teg); Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol); Erthygl 9 (rhyddid meddwl cydwybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (mwynhau eiddo'n heddychlon). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, i'r graddau y mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau'n berthnasol i'r hawliau hynny neu'n ymyrryd â hwy, bod cyfiawnhad dros yr ymyriad gan eu bod yn ceisio cyflawni nod teg, sef darparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan y cynnydd ym mynychder a lledaeniad y coronafeirws ar draws Cymru a'u bod yn gymesur i'r nod hwnnw.

Bydd awdurdodau lleol yn cael cyhoeddi cyfarwyddydau dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint y coronafeirws yn ardal yr awdurdod lleol a bod hynny'n gymesur i'r nod hwnnw. Rhaid i'r awdurdod lleol sydd wedi cyhoeddi'r cyfarwyddyd ei adolygu o leiaf unwaith bob saith niwrnod pan fydd mewn grym, ac os nad yw'n angenrheidiol nac yn gymesur mwyach, rhaid ei ddirymu. Ar ben hynny, caiff parti sydd â buddiant apelio yn erbyn unrhyw gyfarwyddydau o'r fath gerbron llys ynadon.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoeedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i'r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol:

- gau mangreoeedd unigol neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r mangreoeedd, mynediad iddynt neu nifer y bobl ynddynt;

- gwahardd digwyddiadau penodol (neu fathau o ddigwyddiadau) rhag cael eu cynnal neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad, mynediad iddo neu nifer y bobl a fydd yn bresennol; a
- chyfyngu ar fynediad i fannau cyhoeddus yn yr awyr agored neu eu cau drwy gyhoeddi cyfarwyddydau manau cyhoeddus.

Yn dilyn pryderon a fynegwyd gan rai awdurdodau lleol, mae'r Rheoliadau hyn yn ehangu pwerau awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddydau manau cyhoeddus i'w galluogi i osod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau mewn perthynas â gweithgareddau a gynhelir mewn man cyhoeddus, gan gynnwys yfed alcohol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'r pwerau presennol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 ('Deddf 2014') yn caniatáu i awdurdodau lleol osod rhai o'r gofynion y ceir eu gosod drwy'r cyfarwyddydau manau cyhoeddus ehangach, ond ystyrir bod rhai gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r pwerau hynny yn rhy feichus i ddarparu ymateb iechyd cyhoeddus effeithiol i broblemau a achosir gan ymddygiadau penodol, gan gynnwys yfed alcohol. Bydd hyn yn galluogi i gamau cyflymach gael eu cymryd, gan gynyddu effeithiolrwydd yr ymateb iechyd cyhoeddus yn ystod y pandemig presennol.

O ran yfed alcohol yn benodol, mae'r pŵer ehangach o ran cyfarwyddydau manau cyhoeddus yn ategu'r cyfyngiadau ar werthu alcohol a gyflwynwyd yng Nghymru ar 24 Medi gan y bydd yn helpu awdurdodau lleol i atal cynullïadau o bobl rhag yfed alcohol mewn ardaloedd dynodedig o ganlyniad i gau mangre drwyddedig yn gynt. Bydd ymddygiadau o'r fath yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws gan fod yfed alcohol yn arwain at lai o gydymffurfio â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ac yn gwneud gorfodaeth yn anoddach.

Pan fydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd, gan gynnwys o dan y pŵer ehangach i wneud cyfarwyddydau manau cyhoeddus, rhaid iddo roi gwybod i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd. Rhaid i hyn gynnwys copi o'r cyfarwyddyd, y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd, y lleoliad neu'r ardal mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddi, y sefydliadau a'r grwpiau o bobl y mae disgwyl i'r cyfarwyddyd effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch y penderfyniad am y cyfarwyddyd, y dyddiad a'r amser pan ddaw'r cyfyngiad i rym, a'r dyddiad a'r amser pan ddaw i ben.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cysylltiad agos ag awdurdodau lleol ar weithredu a gorfodi'r cyfyngiadau coronafeirws, ac ar ôl gwirio gyda hwy nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddydau sy'n cael eu rhoi o dan y Rheoliadau gwreiddiol ers iddynt ddod i rym. Yn ogystal, nid yw Gweinidogion Cymru wedi cael unrhyw hysbysiadau o gyfarwyddydau, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hynny.

Daw'r Rheoliadau i rym ar ddechrau 12 Hydref 2020.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw

gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fel yr amlinellwyd pan wnaed y Rheoliadau gwreiddiol, drwy gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad agos â swyddogion gorfodi awdurdodau lleol sydd wedi dweud bod angen y pwerau hyn pan fydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd yn bodoli ac nad yw'r pwerau cyfredol yn ddigonol.

Gyda Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion ac i fusnesau drwy gydol y newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sydd ar waith i ymateb i'r bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws.

6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill o'r effaith

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi cael ei lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae asesiad effaith integredig yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.



Elin Jones, MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Hydref 2020

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwigio) 2020, a ddaw i rym ddechrau 12 Hydref 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yw wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 12 Tachwedd 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

SL(5)634 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "Prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau o dan adran 45C(1), adran (3)(c), adran 45F(2) ac adran 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Mae'r Rheoliadau'n dynodi ardal sy'n cynnwys 8 ward etholiadol yn ardal Bangor yng Ngwynedd yn ardal diogelu iechyd leol o dan y Prif Reoliadau. Mae hyn yn golygu:

- na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig, heblaw pan fo un aelwyd yn cynnwys dim mwy nag un oedolyn ac unrhyw nifer o blant;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan o'r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Daeth y Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 10 Hydref 2020. Rhaid i'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n cael eu cyflwyno gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol gael eu hadolygu ar 15 Hydref, neu cyn hynny, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Mae Rheoliad 2(2) yn cyfeirio at fewnosod adran etholiadol "Menai" fel paragraff (q)(viii) ym mharagraff 1 o Atodlen 4A i'r Prif Reoliadau.

Mae'r ail droednodyn i Reoliad 2 yn darparu bod yr enwau hyn wedi'u pennu gan Orchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002 (O.S. 2002/3274) ("Gorchymyn 2002"). Mae'r Atodlen i Orchymyn 2002 yn cyfeirio at "Menai (Bangor)" a "Menai (Caernarfon)". Er y gallai fod yn amlwg wrth ddarllen y Rheoliadau mai'r adran etholiadol sydd dan sylw yma yw Menai (Bangor), gan fod yr enw "Bangor" wedi'i gynnwys yn nheiti y Rheoliadau, gall fod yn llai amlwg wrth ystyried y Prif Reoliadau ar wahân. Er eglurder, ac er mwyn bod yn gyson â'r enwau a roddir i'r adrannau etholiadol yng Ngorchymyn 2002, gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a ddylai'r cyfeiriad ym mharagraff (q)(viii) ym mharagraff 1 o Atodlen 4A i'r Prif Reoliadau fod yn "Menai (Bangor)". Gall hyn hefyd osgoi dryswch a dyblygu posibl pe byddai adran etholiadol "Menai (Caernarfon)" yn ddarostyngedig i gyfyngiadau yn y dyfodol. Mae'r un mater yn codi yn y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys 8 ward etholiadol yn ardal Bangor. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o'r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw.

Credwn fod gwall y mae angen ei gywiro yn y Memorandwm Esboniadol fel y'i dyfynnwyd uchod, gan fod Erthygl 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn amddiffyn yr hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu, nid rhyddid gwybodaeth. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau y bydd y cywiriad hwn yn cael ei wneud.



2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarlleniadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer yr ardal Bangor yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol. Bu'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd ganddynt yn allweddol wrth bennu graddau'r ardal diogelu iechyd leol newydd.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio ar raglen y newyddion ar y teledu Dydd Gwener 9 Hydref 2020 fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; ac fe fydd cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro pa drefniadau y mae wedi'u gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn cyflwyno cyfyngiadau coronafeirws tynnach mewn 8 ward etholiadol yn ardal Bangor yng Ngwynedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau yn ymateb "i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws" ac i'r "bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach".

Credwn, lle mae'r cyfyngiadau coronafeirws yn cael eu tynhau mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, y dylai Memoranda Esboniadol nodi'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn



dibynnu arni wrth benderfynu bod tynhau o'r fath yn angenrheidiol ac yn gymesur. Credwn y dylai'r un egwyddor fod yn gymwys lle mae cyfyngiadau'n cael eu llacio.

O ran y Rheoliadau hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru roi tystiolaeth sy'n dangos:

- a) y dylid cyflwyno cyfyngiadau lleol yn yr 8 ward etholiadol yn ardal Bangor yng Ngwynedd yn y modd y gwnaed hynny;
- b) bod cymaint o frys am yr angen am gyfyngiadau lleol yn yr ardaloedd hynny fel nad oedd amser i'r Senedd gymeradwyo drafft o'r Rheoliadau ymlaen llaw;
- c) nad oedd angen cyflwyno cyfyngiadau lleol mewn rhannau eraill o Gymru.

Bydd darparu'r dystiolaeth hon yn cynorthwyo o ran bod yn dryloyw yn ogystal â gwaith craffu'r Pwyllgor ar y cyfyngiadau coronafeirws, yn enwedig os bydd ardaloedd yng Nghymru yn mynd i gyfres o 'gyfyngiadau treigl' yn ystod y misoedd nesaf.

Credwn hefyd y bydd cynnwys tystiolaeth mewn Memoranda Esboniadol yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Femoranda Esboniadol a'r offerynnau statudol eu hunain.

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y daeth y Rheoliadau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Yn benodol, nodwn y canlynol o lythyr y Prif Weinidog at y Llywydd dyddiedig 9 Hydref 2020:

O dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hoffwn eich hysbysu bod rhain yn dod i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn. Bydd y Rheoliadau ar gael ar dudalennau Coronafeirws Llywodraeth Cymru ar gov.cymru ac yn legislation.gov.uk cyn iddynt ddod i rym.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y dystiolaeth y cyfeirir ati yn y llythyr y dyfynnir ohono uchod a rhoi esboniad manwl pam yr oedd yn angenrheidiol dod â'r Rheoliadau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt technegol yn ogystal â phwyntiau rhinweddau 1, 3, 4 a 5 yn unig.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

13 Hydref 2020



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1102 (Cy. 251)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18)
(Bangor) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiad yn dynodi 8 ward etholiadol (y cyfeirir atynt mewn deddfwriaeth fel "adrannau etholiadol") yn ardal Bangor yn ardal diogelu iechyd leol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1102 (Cy. 251)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18)
(Bangor) 2020**

Gwnaed 9 Hydref 2020

Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 10 Hydref 2020

Gosodwyd gerbron
Senedd Cymru 12 Hydref 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020 and a deuant i rym am 6pm ar 10 Hydref 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (p) mewnosoder—

“(q) yr ardal sy'n cynnwys yr adrannau etholiadol(2) a ganlyn yn sir Gwynedd—

- (i) Deiniol;
- (ii) Dewi;
- (iii) Garth;
- (iv) Glyder;
- (v) Hendre;
- (vi) Hiraël;
- (vii) Marchog;
- (viii) Menai.”

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
9 Hydref 2020

-
- (1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229), O.S. 2020/1040 (Cy. 230), O.S. 2020/1043 (Cy. 232), O.S. 2020/1049 (Cy. 235), O.S. 2020/1066 (Cy. 240) ac O.S. 2020/1079 (Cy. 242).
- (2) Pennwyd eu henwau a'u hardaloedd (ymhlith ardaloedd etholiadol eraill) gan Orchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002 (O.S. 2002/3274).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

12 Hydref 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â 8 ward etholiadol yn ardal Bangor yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Roedd gan Wynedd yn gyffredinol, am 1p.m. ar 8 Hydref gyfradd gyfartalog dreigl o 7 diwrnod o 89.1 achos fesul100,000 o bobl a chyfradd gadarnhaol o 8.0%. Mae mwyafrif helaeth o'r achosion hyn yn canolbwyntio ym Mangor. Mae tuedd sy'n codi'n gyflym mewn cyfraddau mynychder treigl o 7 diwrnod a chadarnhad profion ar gyfer COVID-19 yng Ngwynedd sy'n canolbwyntio ar Fangor.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys 8 ward etholiadol yn ardal Bangor. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o'r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; ac yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 15 Hydref, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio¹ gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', Ar hyn o bryd, mae un ar bymtheg ardal diogelu iechyd leol², a'r Rheoliadau hyn yn ymestyn bellach y

¹ Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

² sef Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg, Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd, 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli, Dinas a Sir Caerdydd ac o Abertawe, Bwrdeistrefi Sirol Conwy a Wrecsam a Siroedd Sir Ddinbych a Sir y Fflint

cyfyngiadau i ardal diogelu iechyd leol arall sy'n cynnwys 8 ward etholiadol yn ardal Bangor yn Gwynedd³. Effaith hyn mewn perthynas â'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan o'r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 10 Hydref 2020. Rhaid adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol ar 15 Hydref neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Aseiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer yr ardal Bangor yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli

3. Fel y nodir ym mharagraff 1(q) o Atodlen 4A i'r prif Reoliadau, y rhain yw: Deiniol, Dewi, Garth, Glyder, Hendre, Hiracl, Marchog, Menai.

Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol. Bu'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd ganddynt yn allweddol wrth bennu graddau'r ardal diogelu iechyd leol newydd

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio ar raglen y newyddion ar y teledu Dydd Gwener 9 Hydref 2020 fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; ac fe fydd cyhoedduswydd eang gan y cyfryngau.

6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Hydref 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 18) (Bangor) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. yfory. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru. O dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hoffwn eich hysbysu bod rhain yn dod i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn. Bydd y Rheoliadau ar gael ar dudalennau Coronafeirws Llywodraeth Cymru ar gov.cymru ac yn legislation.gov.uk cyn iddynt ddod i rym.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 12 Tachwedd 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2020.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Cyfyngiadau lleol coronafeirws

DYDDIAD 9 Hydref 2020

GAN Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog

Yr ydym wedi cyflwyno cyfyngiadau lleol mewn 15 ardal awdurdod lleol ac yn Llanelli i reoli cynnydd cyflym a sylweddol mewn achosion o'r coronafeirws. Caiff y cyfyngiadau hyn eu hadolygu'n ffurfiol bob wythnos a gwnaethom hynny eto ddoe.

Daeth y cyfyngiadau cyntaf i rym ym mwrdeistref Caerffili bron fis yn ôl, gyda'r diweddaraf yng Ngogledd Cymru wythnos yn ôl.

Y duedd gyffredinol yng Nghymru yw bod y sefyllfa yn gwaethygu ac mae'r duedd saith niwrnod yn y rhan fwyaf o ardaloedd lle mae cyfyngiadau lleol ar waith yn dangos bod achosion covid-19 wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae rhai arwyddion calonogol bod y sefyllfa yn sefydlogi yn yr awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent, yn Llanelli ac ym Mro Morgannwg.

Gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac arbenigwyr iechyd cyhoeddus, yr ydym wedi dod i'r casgliad bod cyd-destun iechyd y cyhoedd yn golygu ei bod yn rhy fuan i godi'r cyfyngiadau, a byddant ar waith am o leiaf saith diwrnod arall.

Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol bod yn rhaid i'n dull gofalus fod yn gymesur hefyd. Mae'n hanfodol, pryd bynnag y byddwn yn gosod cyfyngiadau ar ryddid pobl i gwrdd â theulu a ffrindiau, ein bod yn meddwl yn ofalus am yr amodau y byddai angen i ni eu gweld – a'r dull gweithredu – ar gyfer lleddfu'r cyfyngiadau hynny.

Yn dilyn cyfarfodydd gyda llywodraeth leol, yr heddlu a chydweithwyr o'r GIG ddoe, trafodwyd amrywiaeth o fesurau posibl lle gellid dechrau lleddfu cyfyngiadau lleol mewn ardaloedd lle mae cylchrediad y feirws yn gostwng yn gyson. Rhaid bwrw ymlaen â'r rhain yn awr gydag awdurdodau lleol eraill ac arweinwyr iechyd y cyhoedd. Rhaid inni hefyd ystyried cyhoeddiadau a ddisgwylir gan Lywodraeth y DU ddydd Llun, a allai gael effaith uniongyrchol ar yr ardaloedd cynghorau lleol hynny sydd ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Gwnaf ddatganiad pellach ar ôl i'r trafodaethau a'r cyhoeddiadau hynny gael eu cynnal.

Rydym wedi bod yn monitro yn ofalus achosion o'r coronafeirws yng Ngwynedd lle rydym wedi gweld clwstwr sylweddol o achosion yn datblygu yn ardal Bangor – mae'r gyfradd achosion tua 400 o achosion i bob 100,000 o bobl. Ymddengys fod cysylltiad agos rhwng achosion a phobl ifanc a'r boblogaeth myfyrwyr.

Yn ardal ehangach yr awdurdod lleol, ceir tystiolaeth o drosglwyddo'r coronafeirws ledled y sir ond mae'r gyfradd achosion yn amrywio o 152 o achosion i bob 100,000 yn Arfon, sy'n cynnwys Bangor, 55 achos i bob 100,000 o bobl yn Nwyfor a 18 achos i bob 100,000 o bobl ym Meirionnydd.

Cyfarfu'r Gweinidog Iechyd, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a minnau â'r awdurdod lleol, y brifysgol, yr heddlu, y GIG ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd i drafod y sefyllfa ym Mangor a Gwynedd ac a oes angen cyfyngiadau lleol i reoli lledaeniad y coronafeirws a diogelu iechyd pobl.

Yn dilyn trafodaethau helaeth, rydym wedi dod i'r casgliad ar sail ffynhonnell y trosglwyddiad a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r achosion wedi'u clystyru o amgylch Bangor ar hyn o bryd, byddwn yn cyflwyno cyfyngiadau lleol – tebyg i'r rhai sydd ar waith mewn rhannau eraill o Gymru – ym Mangor i ddechrau.

Daw'r cyfyngiadau hyn i rym am 6pm ddydd Sadwrn 10 Hydref.

Cawn drafodaethau pellach gyda'r awdurdod lleol a'r tîm rheoli digwyddiadau ddydd Sadwrn am y sefyllfa ehangach yn Arfon a Dwyfor.

Drwy wneud y dewisiadau cywir a dilyn y rheolau gallwn leihau nifer yr achosion o'r feirws. Am y tro, rhaid inni ofyn i drigolion yr ardaloedd hyn i barhau i ddangos y gwydnwch sydd wedi nodweddu ein hymdrechion hyd yma.

Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar iawn i bobl Cymru am yr holl ymdrechion y maent wedi'u gwneud ac yn parhau i'w gwneud.

SL(5)625 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 6(5), 10(6), 11(5), 15(1), 16(1), 17(1), 17(3), 18(2), 28(7) a 123(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"), a pharagraffau 5, 6 a 9 o Atodlen 1 iddi. Daeth pob un o'r darpariaethau hyn, ac eithrio adran 123(1)¹, i rym ar 29 Medi 2020².

Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Mawrth 2021.

Mae'r Rheoliadau yn esemptio mangreoedd penodol o'r gofyniad i fod yn ddi-fwg o dan Ddeddf 2017 ac yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff cerbydau eu trin fel rhai di-fwg. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch arddangos arwyddion a darpariaeth sy'n ymwneud â gorfodi. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- diffinio "caeedig", "sylweddol gaeedig" a "ddim yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig" – o dan Ddeddf 2017, gosodir y gofyniad i fod yn ddi-fwg mewn perthynas â gweithleoedd a mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig;
- nodi nad yw mangreoedd a ddefnyddir i unrhyw raddau fel anheddau i'w trin fel rhai di-fwg, oni bai y cânt eu defnyddio fel lleoedd gwaith hefyd;
- nodi nad yw'n ofynnol i lety gwyliau na llety dros dro fod yn ddi-fwg, er bod y ddarpariaeth hon yn peidio â chael effaith ar 1 Mawrth 2022;
- darparu, yn ddarostyngedig i amodau penodol, y caniateir dynodi ystafelloedd mewn cartrefi gofal i oedolion, hosbisau i oedolion a chyfleusterau ymchwil a phrofi fel ystafelloedd y caniateir ysmegu ynddynt;
- darparu, yn ddarostyngedig i amodau penodol, y caniateir dynodi ystafelloedd mewn unedau iechyd meddwl fel ystafelloedd y caniateir ysmegu ynddynt, er bod y ddarpariaeth hon yn peidio â chael effaith ar 1 Medi 2022;
- darparu y caniateir dynodi ystafelloedd gwely mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau sy'n bodloni amodau penodol fel ystafelloedd y caniateir ysmegu ynddynt, er bod y ddarpariaeth hon yn peidio â chael effaith ar 1 Mawrth 2022;
- darparu ar gyfer tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus i fod yn ddi-fwg ac ar gyfer amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir dynodi

¹ Daeth adran 123 i rym ar 3 Gorffennaf 2017, pan gafodd Deddf 2017 y Cydsyniad Brenhinol.

² Gweler Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 5) 2020.



ardal ar dir ysgol sy'n darparu llety preswyl ac ar dir ysbyty fel ardal y caniateir ysmegu ynddi;

- ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n rheoli neu'n ymwneud â rheoli mangre ddi-fwg gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmegu yno beidio ag ysmegu;
- ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn mangreoedd sy'n weithleoedd neu ar agor i'r cyhoedd, tiroedd ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus, a phennu eu cynnwys;
- darparu y caiff cerbydau penodol eu trin fel rhai di-fwg. Mae cerbydau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod gwaith gan fwy nag un person neu i gludo aelodau o'r cyhoedd yn ddi-fwg drwy'r amser. Mae cerbydau eraill nad ydynt yn ddi-fwg drwy'r amser yn ddi-fwg dim ond pan fydd person yn y cerbyd yn cael nwyddau neu wasanaethau gan berson arall sydd hefyd yn y cerbyd a phan fydd plentyn yn y cerbyd (yn ddarostyngedig i esemptiad ar gyfer carafannau);
- darparu bod dyletswydd ar yrwr, gweithredwr neu berson sy'n ymwneud â rheoli cerbyd di-fwg i atal ysmegu yn y cerbyd hwnnw;
- ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn cerbydau di-fwg penodol a phennu eu cynnwys.
- dynodi prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau sy'n ddi-fwg yn rhinwedd eu defnyddio at ddibenion cymdeithasol neu ddomestig neu ddibenion preifat eraill pan fo plentyn yn bresennol. Mae awdurdodau lleol eisoes yn awdurdodau gorfodi o dan adran 18 o Ddeddf 2017 mewn perthynas â mangreoedd, lleoedd a cherbydau yn eu hardaloedd;
- darparu ar gyfer symiau cosb benodedig a symiau gostyngol mewn perthynas â throeddau penodol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu asesiad na chyfiawnhad nac wedi cyfeirio at hawliau dynol ym Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Rheoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("CEHD"), sef yr hawl i fywyd preifat. Er mai hawl amodol yw hon, gan ei bod yn hawl y caniateir ymyrryd â hi er mwyn diogelu hawliau buddiant arall neu er budd y cyhoedd yn ehangach, e.e. ar sail iechyd y cyhoedd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion ei hasesiad neu, fel arall, beryglu torri'r hawl ddynol hon.

Er bod y gyfraith yn caniatáu ymyrryd â'r hawliau o dan Erthygl 8, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi bod y newid yn y gyfraith:

- yn gyfiawn ar sail budd y cyhoedd;
- yn gymesur â'r nod a fwriedir er budd y cyhoedd;
- yn cael ei wneud yn unol â chyfraith ddomestig a rhyngwladol, a chyda sicrwydd cyfreithiol.

Mae adran 7 o Ddeddf 2017 yn darparu bod mangreoedd yng Nghymru yn ddi-fwg os ydynt yn weithleoedd, sy'n cynnwys anheddau penodol. Mae'r Rheoliadau yn dileu esemptiadau ar gyfer mathau penodol o weithgareddau gwaith o'r asesiad o ran a yw annedd yn weithle at ddibenion adran 7. Effaith dileu'r esemptiadau hyn yw y caiff yr holl fathau o weithgareddau gwaith eu cynnwys wrth asesu a yw annedd yn weithle ac, felly, bydd yn ofynnol i fwy o'r anheddau hyn fod yn ddi-fwg.

Yn yr un modd, mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu y bydd cerbydau sy'n eiddo preifat yn ddi-fwg pan fydd plentyn yn y cerbyd.

Yn y ddwy sefyllfa hyn, mae'r Rheoliadau yn effeithio ar sut y mae pobl yn ymddwyn yn eu heiddo preifat, boed yn gartref iddynt neu'n gerbyd o'u heiddo.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae o'r farn bod y rheoliadau hyn yn cydymffurfio ag Erthygl 8 o'r CEHD.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae croesgyfeiriadau yn y Rheoliadau at ddarpariaethau Deddf 2017 nad ydynt mewn grym eto.

- Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at adrannau 5, 7, 8 a 12 o Ddeddf 2017. Mae adran 5 yn ei gwneud yn drosedd ysmegu mewn mangreoedd neu gerbydau di-fwg. Mae adran 7 yn gwneud gweithleoedd yng Nghymru yn ddi-fwg. Mae adran 8 yn gwneud mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd yn ddi-fwg. Mae adran 12 yn gwneud meysydd chwarae yng Nghymru yn ddi-fwg. Nid oes dim un o adrannau 5, 7, 8 na 12 mewn grym hyd yn hyn.



- Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio at adrannau 6, 10, 11 a 17 o Ddeddf 2017, a pharagraffau penodol o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Daeth adrannau 6, 10, 11 a 17 a'r paragraffau perthnasol o Atodlen 1 i rym yn rhannol ar 29 Medi 2020, ond dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i'r Rheoliadau gael eu gwneud. Mae'n werth nodi bod adran 6 yn ei gwneud yn drosedd i'r rhai sy'n gyfrifol am y mangreoedd perthnasol fethu ag atal ysmegu mewn ardal ddi-fwg. Mae adran 10 yn gwneud tiroedd ysgolion yng Nghymru yn ddi-fwg ac mae adran 11 yn gwneud tiroedd ysbytai yng Nghymru yn ddi-fwg. Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion gael eu harddangos mewn mangreoedd di-fwg. Mae'r paragraffau perthnasol o Atodlen 1 yn ymdrin â chosbau penodedig. Nid yw'r elfennau hyn o adrannau 6, 10, 11 a 17 ac Atodlen 1 mewn grym eto.
- Mae'r Nodyn Esboniadol yn cadarnhau bod y term "ysmygu" yn y Rheoliadau i'w ddarllen yn unol ag adran 4 (Ysmegu) o Ddeddf 2017. Nid yw adran 4 mewn grym eto.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod yn bwriadu dod â'r darpariaethau y cyfeirir atynt uchod i rym ar 1 Mawrth 2021 neu cyn hynny.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r UE yn unol â gofynion Cyfarwyddeb Safonau a Rheoliadau Technegol 2015/1535/EC. Mae hyn o ganlyniad i'r gofynion technegol yn y Rheoliadau o ran gosod a ffurf arwyddion dim ysmegu (Rheoliadau 13, 14 a 18). Roedd y broses hon yn gofyn cyfnod segur tri mis pan arhosodd y Rheoliadau ar ffurf ddrafft ac ni chawsant eu gosod gerbron y Senedd. Cychwynnodd y cyfnod segur ar 23 Mehefin 2020 a daeth i ben ar 24 Medi 2020. Ni chafwyd gwrthwynebiadau gan yr Aelod-wladwriaethau i Rheoliadau 2020 ar ffurf ddrafft.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd rhinweddau cyntaf a'r ail bwynt adrodd rhinweddau.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n ystyried bod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

1. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'r newid yn y gyfraith yn cael ei gyfiawnhau ar sail budd y cyhoedd, yn gymesur â nod budd y cyhoedd a ddilynir ac yn cael ei wneud yn unol â chyfraith ddomestig a rhyngwladol a chyda sicrwydd cyfreithiol. Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi nodi'r canlynol:
 - *Mae'r Rheoliadau yn dileu eithriadau ar gyfer mathau penodol o weithgareddau gwaith o asesu a yw annedd yn weithle at ddibenion adran 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Effaith dileu'r eithriadau hyn yw y caiff pob math o weithgareddau gwaith ei gynnwys wrth asesu a yw annedd yn weithle ac felly bydd yn ofynnol i ragor o anheddau fod yn ddi-fwg.*
 - *Mae'r Rheoliadau yn darparu bod cerbydau a berchnogir yn breifat i fod yn ddi-fwg pan fydd plentyn yn y cerbyd.*
 - *Yn y ddwy sefyllfa hyn, mae'r Rheoliadau yn effeithio ar sut y mae pobl yn ymddwyn yn eu heiddo a berchnogir yn breifat, boed eu cartref eu hunain neu eu cerbyd.*
2. Cynhaliwyd asesiad manwl iawn o'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ystyried sylwadau'r Pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu hyn.

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sector ffrwythau a llysiau a'r sector ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/891 dyddiedig 13 Mawrth 2017 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y sector ffrwythau a llysiau a'r sector ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu ac sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r cosbau i'w cymhwyso yn y sectorau hynny;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/892 dyddiedig 13 Mawrth 2017 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r sector ffrwythau a llysiau a'r sector ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1185 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 a (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch hysbysu'r Comisiwn am wybodaeth a dogfennau.

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cyllido, Rheoli a Monitro) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/763);
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cyllido, Rheoli a Monitro) (Darpariaethau Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/765);
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/748);
- Y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/733);
- Rheoliadau Datblygu Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/764);
- Rheoliadau Datblygu Gwledig (Rheolau a Phenderfyniadau) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/770);
- Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (Darpariaethau Cyffredin) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/785);
- Rheoliadau Cynlluniau Taliadau Mesurau'r Farchnad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. (O.S. 2019/823);
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) (Rhif. 2) 2019 (O.S. 2019/831);
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1402);
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019 (O.S. 2019/1422); a
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1405)

Mae'r Rheoliadau hyn a wnaed yn 2020 yn dirymu'r ddeddfwriaeth ddomestig a ganlyn:

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/207);
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/208);
- Rheoliad 2 o Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Mesurau'r Farchnad (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019(O.S. 2019/812);
- Rhan 4 o Reoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/759).

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae gan effaith y swyddogaethau cydamserol a chyd-swyddogaethau a geir yn yr offeryn statudol hwn botensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly gallant gyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") yn trosi ac yn cadw cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig ("cyfraith yr UE a ddargedwir") ar ddiwedd y cyfnod pontio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol, mae Rheoliadau 2020 yn gwneud newidiadau i egluro sefyllfa Rheoliadau UE penodedig a ymgorfforwyd mewn cyfraith ddomestig o'r diwrnod ymadael i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol ac a ymgorfforir yn effeithiol o ddiwedd y cyfnod pontio ("diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu") at y dibenion sy'n weddill. Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio neu'n dirymu nifer o Offerynnau Statudol cynharach sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, i adlewyrchu na fydd yr Offerynnau Statudol hynny'n gymwys mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol yn dilyn y Cytundeb Ymadael a Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 a rheoliadau a wneir oddi tani.

Mewn perthynas â Datblygu Gwledig, mae Rheoliadau 2020 yn diwygio OSau blaenorol yn ymwneud ag ymadael â'r UE, a wnaed cyn llofnodi'r Cytundeb Ymadael. Mae angen diweddarau'r rhain i adlewyrchu'r sefyllfa newydd, ac mae nifer bach o ddiwygiadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod y rheolau datblygu gwledig yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ddiwedd diwrnod cwblhau'r cyfnod pontio.

Mewn perthynas ag Ymyrraeth Gyhoeddus ("YG") a Chymorth Storio Preifat ("PSA"), mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau i OSau cynharach yn ymwneud ag ymadael â'r UE sy'n gosod y rheolau ar gyfer cynlluniau YG a PSA sydd wedi'u cynnwys yng nghyfundrefn Trefniadaeth Gyffredin y Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"). Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau y gellir rhedeg darpariaethau sy'n ymwneud â phennu prisiau ar gyfer y broses dendro ymyrraeth yn weinyddol, sy'n cyd-fynd â phrosesau domestig a byddant yn caniatáu i awdurdodau perthnasol adlewyrchu'r system bresennol o weinyddu YG a PSA mor agos â phosibl ar ddiwedd y cyfnod pontio, i sicrhau nad yw cynhyrchwyr a gweithredwyr yn profi unrhyw newid yn y ffordd y caiff y cynlluniau eu rhedeg yn union ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch grwpiau cynhyrchwyr, sefydliadau cynhyrchwyr, hysbysiadau yn y sectorau ffrwythau a llysiau a phroseswyd, a hysbysiadau o wybodaeth am y farchnad amaethyddol i awdurdodau domestig. Dylid darllen y diwygiadau hyn ar y cyd â Rheoliadau Trefniadaeth Gyffredin y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Sefydliadau Cynhyrchwyr a Gwin) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 sydd hefyd yn gwneud cywiriadau gweithredol i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/891 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/892.

Yn fwy cyffredinol, mae Rheoliadau 2020 yn gwneud nifer bach o fân ddiwygiadau drafftio i ddiweddarau gwallau ac amryfuseddau drafftio a chywiro mewn OSau cynharach yn ymwneud ag ymadael â'r UE, er enghraifft methu croesgyfeiriadau yr oedd angen eu diwygio a chyfeirio at y Bunt yn lle'r Ewro. Yn ogystal, mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau cyfyngedig i OSau blaenorol yn ymwneud ag ymadael â'r UE er mwyn ystyried Protocol Gogledd Iwerddon, ac i sicrhau bod Asiantaethau Talu'r DU yn gallu parhau i gydymffurfio â rheolau'r UE at ddibenion Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael.

Mae'r Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348212747/contents>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac yn ystyrlon. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**170 - Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygiadau etc.)
(Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 5 Hydref 2020

Sifftio

Yn destun sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amh
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 34
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) ac 8C(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 6(1) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyd (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio nifer o reoliadau'r UE a deddfwriaeth ddomestig (Rheoliadau Ymadael â'r UE) sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu pedair o Reoliadau Ymadael â'r UE. Mae'r deddfwriaeth a ddiwygiwyd neu a ddirymwyd wedi'i nodi yn y Datganiad gan Lywodraeth Cymru, a Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU, ym mharagraffau 2.3 a 2.4.

Diben y Rheoliadau hyn yw cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Pe na

bai cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â PAC yn cael ei diwygio, byddai'n cynnwys rheolau anweithredol a fyddai'n atal Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig rhag gallu cyflwyno cynlluniau amaethyddol a chynlluniau cymorth i'r farchnad a gaiff eu cynnal ar hyn o bryd o dan y PAC i'r sector amaethyddol ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (IP) ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r diwygiadau yn angenrheidiol er mwyn ystyried newid yn y sefyllfa ddeddfwriaethol, ers i'r Rheoliadau Ymadael â'r UE gwreiddiol gael eu gwneud yn dilyn y Cytundeb Ymadael a'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("y Ddeddf Taliadau Uniongyrchol"). Gwnaed diwygiadau hefyd i Reoliadau'r UE ers i'r Rheoliadau Ymadael â'r UE gael eu gwneud. Gwneir newidiadau nodedig gan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r canlynol:

1. Taliadau Uniongyrchol. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i egluro'r sefyllfa o ran Rheoliadau penodol yr UE a gafodd eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn weithredol o'r diwrnod ymadael i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol ac wedi'u hymgorffori, yn weithredol o ddyddiad Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu at y dibenion sy'n weddill. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio neu'n dirymu nifer o Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE cynharach, i adlewyrchu na fydd yr Offerynnau Statudol hynny yn gymwys mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol yn dilyn y Cytundeb Ymadael a'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol a'r rheoliadau a wnaed oddi tani.
2. Datblygu Gwledig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE blaenorol mewn perthynas â datblygu gwledig, a wnaed cyn llofnodi'r Cytundeb Ymadael. Mae angen diweddarau'r rhain i adlewyrchu'r sefyllfa newydd, ac mae nifer fach o welliannau'n cael eu gwneud i sicrhau bod y rheolau ar ddatblygu gwledig yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl y diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.
3. Ymyrraeth Gyhoeddus (PI) a Chymorth Storfeydd Preifat (PSA). Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE cynharach sy'n gosod y rheolau ar gyfer cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a chynlluniau Cymorth Storfeydd Preifat a gaiff eu cynnwys yn y Gyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd Amaethyddol, er mwyn sicrhau y gall awdurdodau perthnasol efelychu'r system bresennol o weinyddu Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat mor agos â phosibl ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, i sicrhau nad yw cynhyrchwyr a gweithredwyr yn profi dim newid o ran y ffordd y caiff y cynlluniau eu cynnal.
4. Grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch grwpiau cynhyrchwyr, sefydliadau cynhyrchwyr, hysbysiadau yn y sectorau ffrwythau a llysiau a

ffrwythau a llysiâu wedi'u prosesu, a hysbysiadau o ran gwybodaeth am y farchnad amaethyddol i awdurdodau domestig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau cyfyngedig i Reoliadau Ymadael â'r UE blaenorol ble bydd Protocol Gogledd Iwerddon yn effeithio ar gyfraith yr UE a ddargedwir, ac yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Ymadael â'r UE blaenorol i sicrhau bod asiantaethau sy'n talu y DU yn gallu parhau i gydymffurfio â rheolau'r UE at ddibenion Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael.

Gwneir nifer fach o fân ddiwygiadau drafftio gan y Rheoliadau hyn i ddiweddarau'r drafftio ac i gywiro gwallau ac anghysonderau mewn Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE cynharach, gan gynnwys croesgyfeiriadau a fethwyd a oedd angen eu diwygio, ac amnewid cyfeiriad at bunnoedd sterling â chyfeiriad at yr Ewro.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 7 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Mae posibilrwydd i effaith y swyddogaethau cydamserol a'r swyddogaethau ar y cyd a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn gynnwys y gofynion cydsynio yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac felly maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Mae'r Datganiad gan Lywodraeth Cymru yn darparu ei bod yn trafod â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn trafod y cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Cyrff Cynhyrchwyr a Gwin) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020
DYDDIAD	07 Hydref 2020
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Mae Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau a osodwyd yn flaenorol gerbron Senedd y DU fel offeryn "cadarnhaol" brys, Sefydliad Cyffredin y Marchnadoedd mewn **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Cyrff Cynhyrchwyr a Gwin) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1343)**. Gwnaed yr offeryn hwnnw a'i osod ar 14 Hydref 2019. Fodd bynnag, roedd angen cymeradwyo'r offeryn hwnnw drwy benderfyniad dau Dŷ'r Senedd o fewn wyth diwrnod ar hugain gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn amodol ar estyniad am gyfnodau o ddiddymu, addoedi neu ohirio am fwy na phedwar diwrnod. Cafodd yr offeryn ei drafod a'i gymeradwyo gan bwyllgor deddfwriaeth dirprwyedig yn Nhŷ'r Cyffredin, ond ni chafodd ei drafod gan Dŷ'r Arglwyddi o fewn y cyfnod gofynnol o 28 diwrnod, ac o ganlyniad roedd angen ail-wneud y darpariaethau hynny.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 gan gywiro mân wallau. Penderfynodd Defra beidio â dirymu nac ail-wneud yr O.S Ymadael â'r UE hwn oherwydd natur fach y gwallau a gywirir gan yr offeryn hwn.

Mae'r offeryn hwn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ac offeryn statudol y DU sy'n ymwneud â Chyd-drefniadaeth y Marchnadoedd (CMO) mewn meysydd y mae Defra o'r farn eu bod o gymhwysedd a ddargedwir. Dylid ei ddarllen ar y cyd â Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio ac ati) (Ymadael yr UE) 2020 sy'n ymwneud â'r CMO, yn benodol trefniadaethau cynhyrchwyr yn y sector ffrwythau a llysiau, mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r deddfwriaeth ganlynol

Deddfwriaeth Ewropeaidd

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) rhif 880/2012 sy'n ategu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran cydweithredu trawswladol a negodiadau contractiol trefniadaethau cynhyrchwyr yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth;
- Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2016/232 sy'n ategu Rheoliad (EC) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas ag agweddau penodol ar gydweithrediad rhwng cynhyrchwyr;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/891 dyddiedig 13 Mawrth 2017 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu ac sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y cosbau i'w cymhwyso yn y sectorau hynny;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/892 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu; a
- Mae'r offeryn hwn hefyd yn dirymu'r holl weithredoedd gweithredu a fabwysiadwyd o dan Erthyglau 97(3) a (4), 99, 106 a 115(2) o Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor a fyddai fel arall yn rhan o gyfraith y DU yn rhinwedd adran 3(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019).

Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly ni ddylid rhoi'r swyddogaethau cysylltiedig i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Mae DEFRA o'r farn bod diwygiadau yn Rheoliadau 2020 yn ymwneud â materion a ddargedwir. Ar y sail hon, mae DEFRA yn bwriadu trosglwyddo swyddogaethau amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Diben y diwygiadau

Mae rheoliadau'r UE a ddargedwir a ddiwygir gan yr offeryn hwn yn ymwneud yn bennaf â'r CMO. Y CMO yw'r fframwaith ddeddfwriaethol a'r marchnad y darperir ar eu cyfer o dan y

PAC. Cafodd y CMO eu sefydlu fel dull o fodloni amcanion y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Erthygl 40 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd), yn benodol i sefydlu marchnadoedd, sicrhau safon byw teg i gynhyrchwyr amaethyddol a chynyddu gweithgarwch amaethyddol. Mae dros amser wedi ehangu i gynnig pecyn sy'n galluogi'r UE i:

- reoli anwadalrwydd yn y marchnadoedd;
- cymell cydweithio a chystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr amaethyddol; a
- hwyluso masnach.

Mae'r mesurau CMO penodol a ddiwygir gan yr offeryn hwn yn nodi rheolau ar gyfer trefniadaethau cynhyrchwyr yn y sectorau ffrwythau a llysiau, a llaeth a chynhyrchion llaeth; a mewforion gwin a pholisi ansawdd. Roeddent hefyd yn rhoi amryw o swyddogaethau deddfwriaethol i'r Comisiwn Ewropeaidd fel y gallai ddatblygu'r manylion technegol sydd eu hangen i weithredu cyfundrefn benodol. Mae enghreifftiau o'r swyddogaethau hyn yn cynnwys: pennu meini prawf cymhwysedd, pennu meini prawf cydnabod ar gyfer trefniadaethau cynhyrchwyr, pennu dyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno hawliadau am gymorth, pennu rheolau ar gyfer negodiadau contractiol yn y sector llaeth, a gosod manylion y gwiriadau i'w cynnal i alluogi cynhyrchwyr i gydweithredu.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud y cywiriadau priodol i gyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn sicrhau y bydd rheolau'r CMO yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys cywiriadau i OS Ymadael â'r UE blaenorol. Y dull o ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir fu sicrhau bod deddfwriaeth yn parhau mor agos at y system bresennol â phosibl; mae'r newidiadau yn dechnegol eu natur i raddau helaeth.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud nifer o newidiadau:

- Yn gyntaf, mae'n hepgor ac yn diwygio rheolau'r Prif Swyddog Meddygol sy'n ymwneud â grwpiau cynhyrchwyr trawswladol, na fyddant bellach yn berthnasol yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio;
- Yn ail, mae'n sicrhau bod rheolau'r Prif Swyddog Meddygol sy'n ymwneud â sefydliadau cynhyrchwyr domestig yn parhau i weithredu, gan atal amwysedd neu aflonyddwch i randdeiliaid yn y sector hwn; and
- Yn drydydd, mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer adenydd i sicrhau bod trefniadau ar gyfer diogelu a chanslo Dynodiadau Tarddiad Gwarchodedig ("PDOs") ac Mynegeion Daearyddol Gwarchodedig ("PGIs") yn parhau i weithredu ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Ar ddiwedd y cyfnod pontio, heb ei ddiwygio, byddai deddfwriaeth yr UE a ddargedwir y cyfeirir ati uchod yn cynnwys telerau a gofynion Ewropeaidd a allai atal Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig rhag gallu darparu'r cynlluniau cymorth i'r farchnad i'r sector amaethyddol. Heb y gwelliannau hyn ni fyddai'r DU yn gallu gweinyddu'r Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau yn gywir, gan gynnwys cynnal archwiliadau o Drefniadaethau Cynhyrchwyr a gydnabyddir yn y Cynllun Cymorth a thalu cymorth i'r cynhyrchwyr hynny.

Mae'r Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348212761/contents>

Ymateb i Lywodraeth y DU

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r PAC yn faterion sydd wedi'u datganoli ac nad ydynt yn faterion a ddargedwir o dan unrhyw bennod yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno, ac mae o'r farn bod pwnc Rheoliadau 2020 yn un a ddargedwir. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y swyddogaethau uchod yn ymwneud ag amcanion y CMO i wella cynhyrchiant y sector amaethyddol a thrwy hynny wella cystadleurwydd cynnyrch cynradd yn y farchnad. Mae pwnc amaethyddiaeth a'r PAC o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (hynny yw, mae wedi ei ddatganoli). O dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gosod Rheoliadau 2020.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i fynegi ein barn, sef nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig benderfynu ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ac nid oes bwriad gan Weinidogion Cymru yn unig roi cydsyniad ar gyfer yr Offeryn Statudol hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**171 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol (Cyrff Cynhyrchwyr a Gwin) (Diwygio etc)
(Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 5 Hydref 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 36
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael"), a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â maes polisi Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"), sef y fframwaith ar gyfer mesurau'r farchnad ac ymateb i argyfwng yn y farchnad yn y sector amaethyddol, y darperir ar ei gyfer o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC"). Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn trosi cyfraith yr UE sy'n ymwneud â'r cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd ar ddiwedd y cyfnod pontio yn gyfraith ddomestig ("cyfraith yr UE a ddargedwir"), ac yn ei diogelu. Mae'r offeryn hwn yn gwneud y cywiriadau priodol i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau y bydd rheolau'r cyd-drefniadaeth ar gyfer y

marchnadoedd yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys cywiriadau i Offeryn Statudol Ymadael â'r UE blaenorol. Mae datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 7 Hydref 2020, yn nodi mai dull Llywodraeth y DU wrth ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir fu sicrhau bod deddfwriaeth yn parhau mor agos at y system bresennol â phosibl, a bod y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn dechnegol o ran natur i raddau helaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o newidiadau:

- maent yn dirymu rheolau'r cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd sy'n ymwneud â grwpiau cynhyrchwyr trawswladol, na fyddant bellach yn berthnasol yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio;
- maent yn sicrhau bod rheolau'r cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd sy'n ymwneud â sefydliadau cynhyrchwyr domestig yn parhau i weithredu, gan atal amwysedd neu aflonyddwch i randdeiliaid yn y sector hwn; ac
- maent yn darparu ar gyfer gwinoedd i sicrhau bod trefniadau ar gyfer amddiffyn a chanslo Enwau Tarddiad Gwarchodedig a Dangosyddion Daeryddol Gwarchodedig yn parhau i weithredu ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi adolygu datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 7 Hydref 2020, a'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 7 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

1. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly ni ddylid rhoi'r swyddogaethau cysylltiedig i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Mae DEFRA o'r farn bod diwygiadau yn Rheoliadau 2020 yn ymwneud â materion a ddargedwir. Ar y sail hon, mae DEFRA yn bwriadu trosglwyddo swyddogaethau amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, mae'n nodi:

“Defra has engaged the Devolved Administrations on its approach to CAP legislation under the European Union (Withdrawal) Act 2018, including on this instrument, to familiarise them with the legislation ahead of laying. Defra has engaged with the Devolved Administrations during the drafting of this instrument.”

Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i fynegi ein barn, sef nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig

benderfynu ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ac nid oes bwriad gan Weinidogion Cymru yn unig roi cydsyniad ar gyfer yr Offeryn Statudol hwn.

2. Heblaw am gyfeirio at amaethyddiaeth a'r PAC, nad ydynt yn faterion a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac sydd felly wedi'u datganoli, nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol penodol y Senedd neu bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru sy'n cael eu heffeithio gan yr offeryn hwn. Mae cynghorwyr cyfreithiol yn argymhell y dylid gofyn am eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y materion canlynol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin ("y Memorandwm"):

- Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r PAC yn faterion sydd wedi'u datganoli ac nad ydynt yn faterion a ddargedwir o dan unrhyw bennod yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno, ac mae o'r farn bod pwnc Rheoliadau 2020 yn un a ddargedwir. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.

- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y swyddogaethau uchod yn ymwneud ag amcanion y CMO i wella cynhyrchiant y sector amaethyddol a thrwy hynny wella cystadleurwydd cynnyrch cynradd yn y farchnad. Mae pwnc amaethyddiaeth a'r PAC o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (hynny yw, mae wedi ei ddatganoledig). O dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gosod Rheoliadau 2020.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 7 Hydref 2020, pa effaith benodol y gall y Rheoliadau ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu gwneud rhagor o asesiadau ynghylch a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 09 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol sy'n berthnasol yng Nghymru.

Cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a Chyngor Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 2018/775 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(3) o Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, o ran y rheolau ar gyfer nodi gwlad tarddiad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd

Deddfwriaeth ddomestig sy'n cael ei diwygio

- Rheoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996 (Offeryn Statudol 1996/1502)
- Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019 (Offeryn Statudol 2019/259)
- Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019 (Offeryn Statudol 2019/778)

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio cyfraith ddomestig benodol sy'n berthnasol i Loegr yn unig.

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud mân newidiadau technegol i reoliadau domestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i sicrhau gweithrediad y ddeddfwriaeth hon ar ddiwedd y cyfnod pontio. Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Diben y diwygiadau

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (“y Ddeddf Ymadael”) yn trosi ac yn cadw cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig (“cyfraith yr UE a ddargedwir”) ar ddiwedd y cyfnod pontio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau cyfyngedig pellach i ddeddfwriaeth ddomestig sydd wedi bod yn destun OSau Ymadael â'r UE cynharach, yn gyffredinol trwy wneud diwygiadau i ystyried Protocol Gogledd Iwerddon

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio cyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir mewn perthynas â gwlad tarddiad prif gynhwysyn (Rheoliad (UE) 2018/775) i'w gwneud yn weithredol yng nghyd-destun bod y DU yn drydedd wlad ac i ystyried gweithrediad Protocol Gogledd Iwerddon.

Bydd yr OS yn diwygio Rheoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996 i gynnwys eithriad i'r gofyniad marcio lotiau ar gyfer “nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon” trwy gyfeirio at reoliadau a wnaed o dan adran 8C(6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad, yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213065>

Pam rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlyniant y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Pwrpas y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

172 - Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 8 Hydref 2020

Sifftio

Yn destun sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amh
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 38
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon mewn perthynas â chyfraith bwyd. Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod cyfraith bwyd berthnasol yr UE yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ar 31 Rhagfyr 2020, yn unol â'r Protocol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud rhai mân ddiwygiadau technegol i reoliadau domestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i sicrhau bod modd gweithredu'r deddfwriaeth hon ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 9 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

The Rt Hon Alok Sharma MP
Secretary of State for Business, Energy &
Industrial Strategy

T: 020 7215 5000
E: enquiries@beis.gov.uk



UK Government
Llywodraeth y DU

Rt Hon Simon Hart MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Mick Antoniw MS

Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1NA

12 October 2020

Dear Mick,

Thank you for your letter of 7 August.

As your committee will be aware, the common rules regulating trade, in the context of which the devolved settlements were established, will fall away with EU rules at the end of the Transition Period. This will create the potential for significant levels of regulatory divergence between the four nations. The UK Internal Market Bill will provide regulatory stability for businesses and consumers, smoothing the passage from the Transition Period without threatening the Covid recovery.

We have requested Legislative Consent Motions for the Bill from all three devolved legislatures and will continue to work closely with the devolved administrations to agree them. The Bill's primary purpose is to maintain the status quo of seamless internal trade and support the prosperity and welfare of people and businesses across the UK.

The need for primary legislation and the principles behind it

The UK Government has been clear in its view that the UK Internal Market Bill is urgently needed to ensure a smooth passage from the Transition Period as the common rules regulating trade will fall away with the EU institutions. Without it, damaging levels of regulatory divergence between the four nations could arise from 1 January 2021. A well-functioning internal market with a market access commitment will give businesses the regulatory clarity they need, ensuring that supply chains continue to operate smoothly and keep the costs of doing business as low as possible.

Devolution and scope of internal market proposals

The Government's proposals are designed to ensure that devolution can continue to work for all parts of the UK, and that all devolved policy areas remain devolved while

ensuring that there are no new barriers to UK internal trade. At the end of the Transition Period, new powers will be transferred to Wales in a total of 66 policy areas.

Oversight, impact assessments and enforcement

Independent monitoring and advice regarding the UK's internal market will be provided on a non-binding basis by a new Office of the Internal Market (OIM) within the Competition and Markets Authority. The OIM will be independent and operate at arms' length from the Government and devolved administrations. All administrations and legislatures will be able to request specific reporting according to areas of interest.

The Government is therefore not seeking to replicate the European Commission's close supervision of Single Market rules but instead prioritised shared arrangements, underpinned by impartial and expert advice. OIM's reports and advice will be non-binding and will not constrain the ability for devolved administrations to implement regulation once new powers are returned from Brussels to the UK Government and the devolved administrations.

Dispute resolution and common frameworks

The internal market functions of the OIM will enable constructive intergovernmental engagement and support the separate political process to resolve disagreements between administrations. The intergovernmental arrangements that the OIM will support this engagement are subject to the outcomes of the Review of Intergovernmental Relations.


There will be an obligation for Ministers from UK Government and the devolved administrations to make a statement following reports on contentious regulations laid by the OIM before all four of the legislatures, which could facilitate a debate in the legislatures where appropriate, ensuring transparency in regulations that impact intra-UK trade and providing appropriate parliamentary oversight and accountability. This approach provides flexibility to resolve potential disagreements based on impartial, independently produced evidence. This provision will also need to have explicit links with decision-making and dispute resolution mechanisms in individual common frameworks.

The Government recognises the value of cooperation between the four nations in keeping our standards high. The UK Government is seeking to continue the productive, meaningful conversations with the devolved administrations on frameworks, to maintain the UK's current high standards.

Yours sincerely,



THE RT HON ALOK SHARMA MP
Secretary of State for Business, Energy
& Industrial Strategy



THE RT HON SIMON HART MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

12 Hydref 2020

Annwyl Mick

Torri'r rheol 21 diwrnod, a materion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth cysylltiedig â COVID-19

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Medi 2020. Rwy'n ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych ynglŷn ag eglurder a hygyrchedd y gyfraith a wneir gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â'r coronafeirws.

Gwnaed y penderfyniad yn gynnar iawn yn ystod y pandemig i greu'r dudalen 'Coronafeirws a'r gyfraith' fel un man i ddefnyddwyr allu cael copïau o'r is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r adborth rydym wedi ei gael gan ddefnyddwyr a sylwebyddion cyfreithiol wedi bod yn gefnogol a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r wefan i rannu'r wybodaeth hon. Ni fwriedir, fodd bynnag, iddi ddisodli'r gwasanaethau a ddarperir gan Argraffydd y Frenhines o ran argraffu a chyhoeddi deddfwriaeth, nac ychwaith y gwasanaeth ychwanegol a ddarperir gan yr Archifau Gwladol drwy'r wefan legislation.gov.uk. Mae'r wefan honno'n parhau i ddarparu mynediad at fersiynau testun awdurdodol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac offerynnau statudol ar ffurf pdf, yn ogystal â mynediad digidol at ddeddfwriaeth o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Archifau Gwladol wedi ymrwymo i sicrhau bod offerynnau statudol a wneir ar ôl 2018 yn cael eu diweddarau â diwygiadau dilynol a newidiadau cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu gwneud. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi egluro wrth y Pwyllgor o'r blaen, mae materion technegol a ffactorau yn ymwneud â gallu a chapasiti yn eu hatal rhag gwneud hyn ar gyfer deddfwriaeth a wneir yn yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Maes o law, os bydd adnoddau'n caniatáu, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i'w gwasanaeth i'w alluogi i ddiweddarau deddfwriaeth o'r fath.

Yn y cyfamser, gwnaed y penderfyniad i lunio a chynnal fersiwn "fel y'i diwygiwyd" o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, a'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 dilynol, yn y ddwy iaith o ystyried pwysigrwydd y ddeddfwriaeth i bobl Cymru a pha mor aml yr oedd deddfwriaeth o'r fath yn cael ei diwygio. Rwy'n falch o roi gwybod i'r Pwyllgor bod legislation.gov.uk wedi rhoi blaenoriaeth i'r dasg o gadw'r offerynnau hyn yn gyfredol ar eu gwefan, yn ogystal â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Am y rheswm hwn, penderfynwyd peidio â neilltuo rhagor o adnoddau i lunio ein fersiwn 'fel y'i diwygiwyd' ein hunain o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor ynghylch cael gafael ar fersiwn 'fel y'i diwygiwyd' o'r Rheoliadau hynny yn yr iaith Gymraeg. Rwy'n falch, felly, o gadarnhau y byddwn yn llunio ac yn cyhoeddi dogfen o'r fath, yn y ddwy iaith, cyn gynted â phosibl.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3432/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Mick.Antoniw@senedd.cymru

John Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
John.Griffiths@senedd.cymru

15 Hydref 2020

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 13 Hydref, mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 3 Awst mewn perthynas â Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU ("y Bil").

Mae cynnydd y Mesur drwy Dŷ'r Arglwyddi yn cael ei ohirio, ac ni ddisgwylir i Ail Ddarlleniad yr Arglwyddi ddechrau tan fis Rhagfyr, gyda chamau dilynol y broses graffu Seneddol i ddilyn yn y Flwyddyn Newydd. O ganlyniad, mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn a oedd i gael ei chynnal ar 10 Tachwedd wedi'i gohirio.

Yn y cyfamser, mae fy swyddogion wrthi'n parhau i drafod gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â'n hymgais am welliannau i ddarpariaethau penodol yn y Bil. Byddaf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw gytundeb ar y materion hyn, gan fynd i'r afael â'r pwyntiau yn eich llythyr diweddaraf wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 214
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Gwelliannau Llywodraeth Cymru i Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig
DYDDIAD	15 Hydref 2020
GAN	Jeremy Miles AS, Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Rwyf heddiw wedi ysgrifennu at yr Arglwydd Lefarydd ac arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn Nhŷ'r Arglwyddi i annog eu cefnogaeth nhw i set o welliannau i Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig sydd, yn y drafft cyfredol, yn cynrychioli ymosodiad sylfaenol ar ddatganoli.

Gellir darllen fy llythyr i'r Arglwydd Lefarydd yn Atodiad 1. Mae cyflwyniad i'r set o welliannau yn Atodiad 2 ac mae gwelliannau Llywodraeth Cymru yn Atodiad 3.

Jeremy Miles AS/MS

**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Ein cyf/Our ref: MA/CG/3454/20

The Rt. Hon. The Lord Fowler
Lord Speaker
House of Lords
SW1A 2PW
lordspeaker@parliament.uk

15 October 2020

Dear Lord Speaker

UNITED KINGDOM INTERNAL MARKET BILL

The Welsh Government is deeply concerned about the UK Internal Market Bill which will receive its second reading next week.

